

ECO'R WYDDFA

Rhif 253

CHWEFROR 1999

Pris 30c


Arweinydd Newydd

Sawl gwaith y clywsom y dywediad, 'Helô a Ta-ta', a dichon fod sawl un ohonom yn ei ddefnyddio'n aml. Yn achos Côr Meibion Dyffryn Peris mi fydd y dywediad yn berthnasol iawn nos Wener, 12 Chwefror, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Yn ystod cyngerdd arbennig bydd Arwel Jones, arweinydd y côr ers chwe blynedd, yn trosgwlyddo'r awennau i Mair Hughes. Cytunodd Arwel i ymgymeryd â'r dyletswyddau yn anfoddog iawn am chwe wythnos yn unig — ond parhaodd y swydd am chwe blynedd! Yn ôl Arwel, 'Doedd gen i ddim dewis — petawn wedi gwrthod yna byddai dyfodol y côr wedi bod yn y fantol. Serch hynny, bu'n gyfnod cyffrous, hwyliog, ond llafurus ar brydiau.' Bu cryn hysbysebu am arweinydd i'r côr yn ystod y blynyddoedd — ond ofer fu'r ymdrechion hyd nes i Mair Hughes, Prifathrawes Ysgol Cwm-y-glo gytuno i dderbyn y sialens.

Mae Côr Dyffryn Peris bellach ymysg corau meibion bychan mwyaf poblogaidd gogledd Cymru ac mae'r galwadau am eu gwasanaeth yn eang a lluosog iawn. Rhai o uchafbwyntiau'r chwe blynedd oedd taith i Wlad Belg, Lwcsembwrg a'r Almaen ac yna ymddangosiad ar y rhaglen boblogaidd Noson Lawen ar S4C. Mae cais wedi dod i law i'r côr ymweld â gwlad dramor arall yn y dyfodol agos. Daw gwybodaeth pellach pan gwblheir y trefniadau.

I ddathlu'r achlysur o drosglwyddo'r awennau penderfynwyd gwahodd tri o artistiaid mwyaf dawnus a phoblogaidd Cymru i'r cyngerdd — Mary Lloyd Davies, Annette Bryn Parri a Trebor Evans, Gwanas.

Merch ddiymhongar iawn yw Mary Lloyd Davies, ond cydnabyddir hi yn un o gantoresau gorau ein cenedl. Mae'n uchel iawn ei pharch ar y Cyfandir a braf oedd ei gweld ar y teledu Nos Calan mor gartrefol ar lwyfan Wagneraidd, Bayreuth yr Almaen ag ydyw yn ei chynefin yn Llanuwchllyn.



Cydnabyddir Annette Bryn Parri yn un o gyfeilyddion mwyaf talentog Cymru. Bellach mae Annette wedi cyfeilio i ugeiniau o brif gantorion ein cenedl gan gynnwys Bryn Terfel a Gwyn Hughes Jones ac mae'r galwadau am ei gwasanaeth wedi dod o sawl gwlad yn y byd. Bydd Annette yn cyfeilio i'r ddau unawdydd gwadd ar y noson — ond bydd hefyd yn rhoi datganiadau ei hun ar y piano.

Y trydydd o'r artistiaid gwadd yw Trebor Evans, Gwanas.

Chwaraewr y Flwyddyn



Eifion Williams, y nofiwr ifanc dawnus o Lanrug, yw 'Chwaraewr y Flwyddyn' Arfon eleni. Cafodd Eifion dymor llwyddiannus iawn ym 1998. Enillodd bentwr o fedalau: 11 medal aur ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru; 5 medal aur ym Mhencampwriaeth Oedrannau Cymru; 4 medal aur ac 1 arian yn Sheffield yn erbyn nofwyr gorau Prydain; a medal aur y dull rhydd dros 100m ym Mhencampwriaeth Oedrannau Prydain yn Leeds. Ac ar ben hynny roedd bron pob medal yn golygu record newydd hefyd! Golygai'r fuddugoliaeth yn Leeds mai Eifion yw'r gogleddwr cyntaf erioed i ennill pencampwriaeth nofio Prydeinig a'i fod bellach yn un o'r saith nofiwr gorau dan 12 oed ym Mhrydain.

ond gall hefyd dynnu'n dynn ar linynnau'r teimladau dwysaf. Artist o fri.

Mae gwledd yn eich disgwyl ac fe ellwch sicrhau tocynnau trwy gysylltu ag unrhyw aelod o'r Côr neu ffonio y rhifau a ganlyn: (01286) 871274 neu (01286) 870339. Pris y tocynnau yw £3.50 i oedolion a £3.00 i blant a phensiynwyr. Noddir y cyngerdd gan gwmni First Hydro.

Plygu'r Eco yn Ysgol Brynrefail



ECO'R WYDDFA

Rhif 253
CHWEFROR 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAWRTH 4

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, CHWEFROR 22

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
MAWRTH	CHWEFROR 22	MAWRTH 4	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn
EBRILL	MAWRTH 22	EBRILL 1	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands
MAI	EBRILL 19	EBRILL 29	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts
MEHEFIN	MAI 17	MAI 27	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Fforwm Neuaddau Gwynedd

Daw cynrychiolwyr o holl
Neuaddau Gwynedd at ei gilydd
i Neuadd Goffa Penrhyn-deu-
draeth am 7 p.m. nos Fawrth,
Chwefror 9.

Gyda dyfodiad y Cynulliad ac,
mae'n ymddangos, arian
Ewropeaidd Amcan 1 ar ei
ffordd mae'n holl bwysig cael
llais cryf i fudiadau gwirfoddol.
Mae pobl ar draws Gwynedd yn
gweithio'n ddi-flino ac yn hollol
ddi-dâl i gynnal a chadw
canolfannau cymunedol, ond
prin yw'r cyfleoedd iddynt ddod
at ei gilydd a siarad fel un llais.

Yn ogystal â bod yn gyfle i'r
neuaddau neu ganolfannau ddod
at ei gilydd i drafod bydd yna
hefyd ddau gyflwyniad.

Bydd siaradwyr yn rhoi
gwybodaeth am ddwy ffynhon-
nell grant sydd ar gael, sef Mike
Lewis o Ymddiriedolaeth Lloyds
TSB a Helen Prince o Prince's
Trust-Bro.

Trefnir y cyfarfod gan Mantell
Gwynedd sy'n gweithio i gefnogi
grwpiau gwirfoddol a
chymunedol. Mae Mantell
Gwynedd yn gweld canolfannau
a neuaddau pentref yn allweddol
i fywyd cymunedol bywiog, ac yn
ganolog i weithgareddau
gwirfoddol ardaloedd gwledig a
threfol Gwynedd.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr



Y GAMPFA
CANOLFAN IECHYD
A FFITRWYDD

(Perchennog: D. M. A. Lee)

DEINIOLLEN

Ffôn:

(01286)

872 240

Llythyrâu

Ysgoloriaeth Goffa Saunders Lewis

Y mae Ymddiriedolwyr Cronfa
Goffa Saunders Lewis yn
gwahodd ceisiadau gan bobl
ifainc o dan 35 mlwydd oed am
Ysgoloriaeth Goffa i'w galluogi i
dreulio peth amser ar Gyfandir
Ewrop yn astudio un o bedwar
maes:

drama a/neu ffilm;
systemau gwleidyddol;
cysylltiadau llenyddol;
y celfyddydau cain.

Yn achos drama a/neu ffilm
gall gwaith creadigol gymryd lle
astudiaeth academiaidd. Cynigir
cyfanswm o £10,000 fel ysgolor-
iaeth, a hynny dros gyfnod o
ddwy flynedd.

Gellir cael manylion pellach
oddi wrth: Ysgrifennydd Cronfa
Goffa Saunders Lewis, d/o Llain
Wen, Blaenplwyf, Aberystwyth,
Dyfed SY23 4QJ, a dylai pob
cais fod yn llaw'r Ysgrifennydd
cyn 8 Chwefror 1999.

Arian i Blant dan 8 oed

Mae'r Swyddfa Gymreig wedi
cymeradwyo grant i gynorthwyo
gwasanaethau i blant a
theuluoedd yng Ngwynedd. Mae
arian ar gael i grwpiau plant dan
8 oed.

Mae Mantell Gwynedd yn
gwahodd ceisiadau am grant o
£100-£500 i sefydlu, ehangu
neu ddatblygu gwasanaethau fel
cylchoedd chwarae, mam a'i
phlentyn, meithrinfa, canolfan
deulu, cynllun ymweld cartref,
cefnogaeth gofalwyr plant,
grwpiau hunangymorth, llyfrgell
deganau. Bydd blaenoriaeth i
grwpiau sy'n gweithio gyda plant
a theuluoedd difreintiedig.

Y llynedd gwnaeth 23 o
grwpiau elwa o gyfanswm o dros
£3000.

Ysgrifennwch neu ffoniwch
am ffurflen gais at:

MANTELL GWYNEDD
24-26 STRYD FAWR
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 672626

Dyddiad cau: 1 Chwefror 1999

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS

★

PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS

★

PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

'Y Madogwys neu Angau'

JOHN EVANS 1770 - 1799

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Waunfawr yn 1983 rhoddodd tua cant o bobl yr ardal sêl eu bendith ar gynllun fyddai yn rhoi cyfle i bobl â nam meddwl wasanaethu'r gymuned — a sefydlwyd 'Antur Waunfawr'.

Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel y Waunfawr ar safle yr oedd yr achos Methodistiaidd wedi ei brynu bron yn union ddau gan mlwynedd ynghynt. Hyn sy'n ddiddorol — un o'r ymddiriedolwyr ar bryniant y tir oedd Thomas Evans, fu'n byw yn Gwredog Uchaf a Hafod Olau — pregethwr amlwg gyda'r enwad ac yn dad i Evan Evans, pregethwr amlycach fyth. Mab arall iddo oedd John Evans aeth o'r Waun i'r Amerig i chwilio am y llwyth o Indiaid Cymreig gredid oedd yn ddisgynyddion i'r Cymry hwyliodd gyda Madog dros yr Iwerydd yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Mae Antur Waunfawr wedi sicrhau nawdd ariannol i geisio gofalu bydd yr hyn a wnaeth John Evans yn cael ei ddathlu yn briodol. Mae ymchwilwyr yn barod wedi dadlennu llawer o'i hanes, ac mae Catrin Thomas, M.A., o goleg Bangor yn awr yn gweithio'n llawn amser i geisio cyfrannu'r holl wybodaeth.

Gwyddom fod John Evans yn gallu siarad pedair iaith, ei fod wedi cymhwyso'i hun fel syrfewr, iddo dreulio cyfnod mewn carchar gan y Sbaenwyr ar y dybiaeth mai ysbiwr Seisnig ydoedd, ond iddo'n ddiweddarach gael ei gyflogi gan wladwriaeth Sbaen. Wynebodd drafferthion a pheryglon anghredadwy tra'n mynnu tramwyo i fyny'r Missouri am 1,800 milltir. Gwyddom fod ganddo ddawn i ymgyfeillachu â llwythau brodorol ac iddo dreulio misoedd yn byw gyda'r Mandaniaid — llwyth y cred llawer heddiw fod iddynt gysylltiadau Cymreig!

Er na lwyddodd John Evans i ddarganfod ei frodyr Cymreig, bu ei daith yn dyngedfennol yn hanes cyfandir

yr Amerig. Ar sail ei fapiau y llwyddodd Lewis a Clark saith mlynedd yn ddiweddarach i gael llwybr i'r Môr Tawel. Dywedir i'r Arlywydd Jefferson brynu Louisiana gan y Ffrancwyr, gan ddyblu arwynebedd yr Unol Daleithiau, ar sail mapiau John Evans. Yn wir, yn ystod ei daith ar ran llywodraeth Sbaen, fe feddiannodd John Evans gaerau Seisnig gan dynnu i lawr faner Jac yr Undeb. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw y gall mai John Evans o Hafod Olau, Waunfawr sy'n gyfrifol bod Louisiana yn dalaith o'r Amerig ac nid yn drefedigaeth i Loegr! Mae llawer o ddirgelwch a dichon na ellir byth eu datrys ynghlwm wrth ei farw cynnar yn nhŷ llywodraethwr New Orleans. A sut fyth y gellir esbonio ymlyniad anghydfurfiwr o gefndir John Evans wrth wladwriaeth Babyddol Sbaen?

Mae Antur Waunfawr yn cydweithio â nifer o fudiadau Cymreig ac unigolion o'r ddwy ochr i'r Iwerydd yng nghyswllt y gweithgareddau a drefnwyd ac a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Hysbysebair y cyfarfodydd ynghlwm wrth y dathliadau yn ystod yr wythnosau nesaf, a hyderwn y bydd llawer o ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* yn gallu uno â phobl Waunfawr i fwynhau'r arlwy.

Mae'n hyfryd i mi yn bersonol deimlo fod gweithwyr anabl yr Antur, sydd wedi cael cymaint o gynorthwy i ddatblygu fel unigolion gan bobl yr ardal, yn awr yn gallu ad-dalu peth o'r ddyled trwy fod yn rhan bwysig o ymdrech fydd yn bywiogi a chyfoethogi bywyd y cylch ac yn dod ag amlygrwydd i'r pentref.

GWYNN DAVIES
Cadeirydd Antur Waunfawr

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
anfonwch hi i
*Eco'r Wyddfa***

CABARET YN Y CELT
GWESTY'R CELT, CAERNARFON
NOS SADWRN, 6 MAWRTH 1999

GYDA

DAFYDD IWAN A'R BAND
CÔR MEIBION CAERNARFON
LLION WILLIAMS

Arweinydd y noson: **JOHN OGWEN**

SWPER A BWYDLEN GYMREIG DRADDODIADOL
TOCYNNAU: £17.50 (yn cynnwys bwyd ac adloniant)

Am fwy o fanylion cysylltwch â
MEINIR EVANS, CWMNI TREF CAERNARFON
(01286) 677227

Pen-blwydd hapus Band Ieuenctid Llanberis



Sefydlwyd Band Ieuenctid Llanberis ar 14 Ionawr 1998 ac yn ystod y flwyddyn gyntaf yma mae'r band wedi llewyrchu gyda 17 o aelodau ifanc lleol o'r oedran 8 i 12.

I Mr Owen Davies o Nant Peris mae'r diolch oherwydd y fo yw arweinydd y band. A chyda'i gymorth a'i wybodaeth (ac amynedd di-ri) mae'r band yn mynd o nerth i nerth ac wedi ymddangos mewn nifer o weithgareddau lleol yn ystod y flwyddyn.

Cymeryd rhan yng ngorymdaith y Carnifal oedd y perfformiad cyhoeddus cyntaf ac o hynny daeth y cyfle i arwain gorymdaith Carnifal Nant Peris a chymryd rhan yng Ngharnifal Llanelwy. Cafwyd diwrnod arbennig o dda yn ystod yr haf yn diddanu staff Euro DPC yn eu Ffair Haf. Mae'n debyg mai uchafbwynt y flwyddyn oedd cael cymryd rhan mewn cyngerdd codi arian i elusen lleol yn Ysgol Brynrefail, Llanrug gyda enwau fel Hogia'r Wyddfa, Siân Gibbson, John Eifion a Jonsi, ynghyd â nifer o artistiaid eraill yn rhannu'r un llwyfan.

Pleser mawr hefyd oedd arwain gorymdaith Sul y Cofio drwy bentref Llanberis i Eglwys St. Padarn ac wedyn ymlaen at y gofgolofn. Daeth y flwyddyn i ben yn perfformio yn Ffair Nadolig Amgueddfa'r Gilfach Ddu, lle cafwyd amser Nadoligaidd iawn.

Mae'r band mor boblogaidd erbyn hyn fel bod pedwar o blant eraill eisiau ymuno ond, oherwydd diffyg offerynnau, mae'n rhaid iddynt fod yn amyneddgar. Ein nod fel pwyllgor am y flwyddyn 1999 yw codi arian er mwyn newid yr hen offerynnau am rhai newydd. Rydym yn croesawu unrhyw syniadau neu gymorth tuag at y dasg yma ac o hyd yn chwilio am aelodau i ymuno â'r pwyllgor.

Hoffai aelodau'r band a'r pwyllgor fanteisio ar y cyfle i ddiolch unwaith eto am yr holl weithgarwch codi arian sydd eisoes wedi bod ac i bawb a roddodd yn hael tuag at yr achlysuron. Diolch i rieni'r plant am fod mor gefnogol.

Gobeithio y bydd 1999 yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r band.
S. J. DAVIES

Cynhyrchiad

DALIER SYLW



Y MADOGWYS gan Gareth Miles
YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR

Nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn
25, 26 a 27 CHWEFROR 1999 am 7.30 yr hwyr

Tocynnau: £4 (£3 gost)

Ffôn Antur Waunfawr (01286) 650721

Cedwch y chwedlau'n fyw!

O SIAMBAR SELWYN

Cymraeg oedd yr iaith eleni eto yng ngwesty'r Mount Royal ar Stryd y Dywysoges, Caredin wrth i ni groesawu 1999 ar yr hen blaned 'ma. Mae gwesty'r Mount Royal mewn lle cyn delfrydol i weld yr holl weithgareddau, ac fe roedd yr arddangosfa tân gwyllt eleni yn rhagori hyd yn oed ar rai y blynyddoedd a fu.

Roedd 'na hanner miliwn o bobol yn ymlwybro a gwingo drwy'i gilydd ar Stryd y Dywysoges, a miloedd eraill fel arfer ar y strydoedd cyfagos. Pobol ifanc yn naturiol oedd y mwyafrif, er bod 'na ambell bensiynwr go ifanc fel fi, oedd yn mwynhau'r dathlu.

Profiad arbennig ydi ymwthio drwy'r don ar Stryd y Dywysoges ar ôl i wreichion ola'r tân gwyllt droi'n lludw. Pawb yn mwynhau eu hunain yn yr ysbryd gorau a rhaid cyfaddef fod yna rhywbeth yn gynnes a brwdfrydig yng nghroeso yr Albanwyr. Oedd, wrth gwrs, roedd 'na rai wedi cael mwy na 'tot' neu ddau o wisgi, ond welais i'r un enaid byw yn mynd o'i ffordd i aflonyddu yn fwriadol ar neb. Canu, dawnsio, ysgwyd llaw yn ddi-ddiwedd a chusanu, a phawb yn ymuno yn yr hwyl yn yr ysbryd gorau. Yn ôl y newyddion, dim ond 16 a gymerwyd i'r ddalfa, a doedd na'r un ffenest ar Stryd y Dywysoges wedi'i thorri.

Mae'n arferiad gan nifer ohonom fynd i Gaeredig ers rhai blynyddoedd bellach i ddathlu'r flwyddyn newydd. Ond sut fydd hi flwyddyn nesa ar drothwy'r mileniwm newydd? Fydd yna lond y Mount Royal o Gymry? Mae'n amheus gen i — os na fyddwn ni wedi ennill y loteri!

Er fod y prisiau wedi treblu, mae'r ystafelloedd eisoes yn llawn. Roedd 'na rhai o Ganada, America a Brazil yn dathlu yno eleni ac fe ragwelir y bydd cyfoethogion o bob rhan o'r byd yn heidio i Gaeredin y flwyddyn nesaf. Clywais fod un gwesty yn cynnig £1,000 y noson i'w

gweithwyr. Er fy mod ar fy mhensiwn 'dwi bron â chynnig fy ngwasanaeth i olchi llestri yno! Ydach chi wedi gwneud ymholiadau am brisiau y gwestai lleol 'ma am baced tair noson dros y dathlu? Fe gewch sioc pan welwch chi'r prisiau a ofynnir. Mae yr un peth yn wir os bwriadwch fynd ar fordaith dros y mileniwm — bydd angen morgais arnoch i dalu am y dathlu. Bydd mi fydd gwestai'r byd 'ma yn manteisio ar y cyfle i godi prisiau afresymol y flwyddyn nesa, fel mae ambell westy yn ei wneud pan fydd y brifwyl yn ymweld ag ambell ardal.

I ble'r awn ni felly i groesawu'r flwyddyn 2000? Mae un peth yn gwbl sicr, fydd 'na'r un ohonon ni yma i groesawu'r flwyddyn 3,000, a digon o waith y bydd 'na 'run ohonoch chi yma i groesawu'r flwyddyn 2100.

Sut le fydd 'ma 'mhen can mlynedd, sgwn i? Fydd 'na rai o'r 'hen flychau sgwâr, afrosgo, llwm', y cyfeiriodd T. Rowland Hughes amdanynt, ar ôl? Fydd dyn wedi glanio ar Mars 'sgwn i? Os bydd gemau pêl-droed, fydd cyflog y pêl-droediwr proffesiynol dros £100,000 yr wythnos, 'ta fydd y gêm wedi diflannu o'r tir oherwydd ariangarwch? Fydd 'na gadeirio a choroni yn Steddfod 2100? Beth fydd y gwobrau? Yn Eisteddfod y Gadair Ddu (1917), £5 oedd y wobwr am Awdl 500 llinell. Yn Eisteddfod Bro Ogwr y llynedd, er na chafwyd teilyngdod, fe gynigiwyd £750 am Awdl heb fod dros 200 llinell. Tybed yn y flwyddyn 2100 a gynigir y gadair am englyn a'r goron am limrig a £1,000 o wobwr? Fydd 'na Steddfod? Pwy fydd Clerc Cyngor Cymuned Llan-ddeiniolen? Mae'r Cyngorau Lleol bellach yn 106 oed eleni ac yn ystod y cyfnod yma dim ond pump o glercod a wasanaethodd Cyngor Plwy / Cymuned Llan-ddeiniolen. Fydd 'na Gyngor Cymuned? A sut siâp fydd ar y

Cynulliad ymhen can mlynedd? Fyddwn ni fel cenedl yn rhydd, 'sgwn i?

Oes, ma' 'na sawl cwestiwn yn codi. Drygiau, damweiniadu, darganfyddiadau a trychinebau. Mi ddarllenais i yn rhywle y bydd diwedd y byd 'ma yn y flwyddyn 2028. Gobeithio na ddigwydd hynny tan ar ôl y 19 o Fai fel y gallai ddathlu fy mhen-blwydd yn 100 oed.

Be ydwi'n ei ofni fwyaf? Wel, os mai arwyddair addysg yw, 'Mi ddysgaf iti'r grefft o bwysu botwm', mi rydw i'n bryderus y gall rhyw wallgofddyn bwysu'r botwm a fydd yn chwalu'r hen

blaned yma yn chwilfriw, ac y bydd yna eto gynnwrf yng nghrombil daear a ninnau yn cael ein hyrddio fel gwaddod yn ôl i eigion y dyfroedd. Bobol bach!

Ond twt. I ble yr âf i ymhen y flwyddyn i groesawu'r mileniwm newydd? Caerdydd, Dulyn, copa'r Wyddfa, Ynys Enlli — ynte a fentra i i Ynysoedd Fi-Ji, lle mae cyfle i mi groesawu'r flwyddyn ddwywaith. I ble, os byw ac iach? Wel, pe medrwn ei fforddio fy newis i yn ddi-os fyddai Caeredin.

Beth oedd rhifau loteri nos Sadwrn d'udwch?

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAROLAU. Cafwyd gwasanaeth Nadolig arbennig yn festri Rehoboth nos Wener, Rhagfyr 18. Roedd y darlleniadau Beiblaidd yng ngofal aelodau Rehoboth ac Eglwys Sant Peris. Cafwyd carolau gan barti Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a Mr Gareth Jones; a chan barti o'r Nant. Darllenodd Mr John H. Hughes gerddi a chafwyd eitemau hefyd gan blant y capel gyda help rhai ffrindiau bach o Lanberis. Roedd y festri'n rhwydd lawn a darparwyd lluniaeth ar ddiwedd y gwasanaeth.

REHOBOTH. Mae'r gwaith o atgyweirio nenfwd y capel wedi'i ddechrau erbyn hyn ac yr ydym yn edrych ymlaen at gael cynnal yr oedfan yn y capel unwaith yn rhagor

wedi cwblhau'r gwaith.

GWELLHAD BUAN. Mae'n dda gennym ddeall bod Mr Arthur Williams, 7 Nant Ffynnon a Mrs Ann Jones, 2 Nant Ffynnon wedi dod gartref o'r ysbyty erbyn hyn. Anfonwn ein cofion at y ddau ohonoch. Mae Mrs Megan Hughes, Hafod yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan iddi hithau gan obeithio y caiff ddod adref cyn gynted â phosibl.

YSGOL FEITHRIN. Pob dymuniad da i Delyth Tomos sydd erbyn hyn yn arwain yr Ysgol Feithrin a gynhelir yn Y Ganolfan yn Llanberis. Croeso a dymuniadau gorau hefyd i Anti Pamela sydd wedi dod i'w chynorthwyo gyda'r gwaith.

DRAENOG



Ddyla chi ddim chwerthin am ben anffawd rhywun arall. Ond mae'n anodd peidio weithau. Dyna i chi'r gŵr hwnnw oedd yn dod adref o barti a bu'n rhaid stopio'r car wrth weithdy Inigo Jones tua'r Groeslon a bu'r gŵr yn sâl wrth ochr y lôn. Deni sy i'w gael am fod yn ffôl. Wedi ailgychwyn sylweddolodd ei

fod wedi colli ei ddannedd gosod a bu'n rhai troi nôl i chwilio am y dannedd. Digon yw dweud iddo ddod o hyd iddyn nhw. **In-i-go** wir! **Out-ye-go** oedd hanes y dannedd y noson honno.

A dyna chi'r cyfaill oedd wedi torri'i fraich cyn y Dolig. Cafodd dipyn o drafferth postio cerdyn trwy flwch llythrau yn nhŷ ei ffrind gan fod y blwch hwnnw'n isel iawn a'r creadur yn methu'n lân a phlygu i'w gyrraedd. Doedd dim amdani ond eistedd ar lawr i bostio'r cerdyn. Paid a mynd â cherdyn i'r tŷ hwnnw y flwyddyn nesaf, Alwyn, dydio fawr o ffrind i ti, a fynta wedi bod yn y tŷ yn dy wylion n' stryffagligio i bostio'r cerdyn.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am Fwffe Enwog Nerys

i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis

'Un funud fach . . .'

Y STORI ORAU

Rwyf wrth fy modd efo nofelau Robert Goddard. Cefais y ddiweddaraf, *Caught in the Light*, yn anrheg Nadolig a'i mwynhau yn arw. Erbyn hyn mae Goddard wedi cyhoeddi un nofel ar ddeg, a phob un ohonynt yn stori afaelgar llawn dirgelwch. Mae'n feistr ar adrodd stori. Os ydych yn hoff o nofel gyffrous, a heb eto daro ar Goddard, mae gwledd yn eich aros.

Wna i ddim ceisio crynhoi plot cymhleth *Caught in the Light* i chi. Mae'n llawn dirgelwch. Mae sawl tro yng nghynffon y stori. Yn ôl rhywun, nofel 'unputdownable', llyfr na ellir mo'i ollwng o'ch gafael. A dyna fyddai yn llythrennol oni bai bod iddo dros 400 tudalen, a minnau'n darllen yn araf!

Tua hanner ffordd trwy'r nofel cefais yr un profiad ag a gefais o'r blaen wrth ddarllen nofelau Goddard. Roedd y dirgelwch yn cael ei ddatrys, a'r stori'n dod i ben. Roedd y cwestiynau wedi eu hateb, a'r cymhlethdod wedi ei glirio. A doedd dim byd ar ôl i'w ddweud. Ac yna, mwya sydyn, roedd un tro arall cwbl annisgwyl i'r plot a'r stori fel petae yn ailddechrau. Minnau'n gweld nad oeddwn wedi dechrau datrys y dirgelwch ac yn rhyfeddu at glyfrwch a chrefft y nofelydd.

A'r union funud honno sylweddoli bod yr un peth wedi digwydd ym mhrofiadau disgyblion Iesu Grist. Pan fu farw Iesu ar y groes roedd popeth drosodd a'r stori ar ben. Doedd dim byd arall allai ddigwydd. Roedd yr Athro a'r Arweinydd wedi marw a dim byd bellach i edrych ymlaen ato. Ond roedd yna dro yng nghynffon y stori, a hwnnw'n dro mwy rhyfeddol nag a geir yn y nofel odidocaf. Daeth Iesu yn ôl yn fyw, ac aeth y stori fawr yn ei blaen. Dyna'r rhyfeddod! Mae'r stori'n parhau. Mae Iesu Grist yn dal yn fyw. Ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, gwybod hyn yw ein llawenydd a'n gobaith ni.

JOHN PRITCHARD

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Ar Ragfyr 15fed bu farw Mrs Maggie Closs Parry, Bryniol yn 95 mlwydd oed. Chwith yw colli yr hynaf o'n plith a drigain yn y pentref ac un a hanai o un o deuluoedd cynharaf yr ardal. Bu'r angladd preifat yn y cartref ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed, ac yn dilyn yn gyhoeddus ym Mynwent Llanddeiniolen. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain oedd mor annwyl ganddynt.

MEWN YSBYTAI. Treuliodd Mrs Betty Owen, Tros yr Afon gyfnod yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig ond cafodd ddod gartref dros yr Ŵyl a da yw deall ei bod yn gwella wedi cyfnod pellach o anhwylder yn ystod y flwyddyn newydd. Anfonwn ein cofion at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth hefyd wedi iddi hithau ddychwelyd gartref ar ôl ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd yn gynnar ym mis Ionawr. Yn anffodus, cyfarfu Mrs Helen Jones, 3 Ffrwd Madog â damwain pur ddrwg nos lau, Ionawr 14eg, pan drawyd hi gan fodur wrth iddi groesi'r ffordd osgoi o gyfeiriad y pentref tuag at ei chartref. Dymunwn adferiad buan iddi tra mae'n derbyn sylw meddygol yn Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Bu'r cyfnod dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn un prysur i'r aelodau a'r plant a chafwyd dwy oedfa fendithiol gyda chynulladau teilwng. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Nadolig bnawn Sul, Rhagfyr 20fed, dan lywyddiaeth Gwyn Hefin Jones. Agorwyd y cyfarfod gyda defosiwn dan ofal Richard Wyn Evans. Yn dilyn mwynhaodd pawb berfformiad y plant o'u cyflwyniad 'Seren Nadolig' dan ofal Mair Davies a Lowri Roberts Williams. Yn dilyn cafwyd unawd gan R. J. Williams, darlleniadau o'r Ysgrhythur a chyflwyniadau ar thema'r Nadolig gan J. A. Roberts, Maurice Jones, Verna Jones, Gwyn Hefin Jones, Ifanwy Jones, Jennie Hughes, Norman Williams, Lowri Roberts Williams a Dafydd G. Ellis a chafwyd canu da ar nifer o'r carolau traddodiadol. Diolchodd y llywydd i bawb am eu cyfraniad i'r oedfa.

Nos Sul, Ionawr 3ydd, cynhaliwyd

Oedfa Blwyddyn Newydd. Paratowyd y sgript ar gyfer y gwasanaeth gan Lowri Roberts Williams. Roedd y rhannau agoriadol o dan ofal Jennie A. Roberts ac Emyr Williams. Cymerwyd rhan yn yr adran gyntaf ar y thema 'Amser' gan Gwyn Hefin Jones, Ifanwy Jones, Dilys Jones a Lowri Roberts Williams. Neilltuwyd yr ail ran i'r testun 'Teulu'r Eglwys' dan ofal Jennie Hughes, Richard Wyn Evans a Mair Davies ynghyd â'r gynulleidfa yn ymuno mewn gweddïau ar ran Eglwys CWM 1999. Roedd y rhan olaf o'r gwasanaeth yn seiliedig ar y thema 'Cyfamodi o'r Newydd' a chymerwyd rhan gan Norman

Williams, Einir Gwyn, Robert J. Williams a Dafydd G. Ellis ynghyd â'r gynulleidfa. Terfynwyd yr oedfa dan ofal Eleanor Jones.

Trefn y moddion am y Suliau nesaf:

IONAWR

31. Parchg Gareth Alban, Bae Colwyn. OEDFA FEDYDD (10.00)

CHWEFROR

7. Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon (3.30)

14. Mr Evan Jones, Bontnewydd (10.00)

21. Parchg Emrys Thomas, Caernarfon (2.00)

28. Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (10.00)

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

BLWYDDYN NEWYDD. Ar ddechrau blwyddyn newydd hoffem dymuno blwyddyn newydd dda i bawb yn yr ardal a chymryd y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n gymorth i mi gan gasglu newyddion i'r Eco yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

GARTREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir wedi dod adref ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd a'i fod yn dal i wella. Dymunwn iddo wellhad llwyr a buan. Hefyd da yw deall fod Mr Glyn Sinclair yntau wedi dod gartref o'r ysbyty yn Lerpwl ond y mae'n disgwyl mynd yn ôl i ysbyty yn Manceinion. Hyderwn y bydd iddo yntau hefyd gael llwyr iachâd.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian yn Ysbyty Gwynedd a'i fod wedi gorfod bod yno dros y Nadolig. Gobeithio y caiff ddod adref yn reit fuan ac wedi gwella'n llwyr. Brysia wella, John.

CAE CHWARAE. Da yw deall — ar ôl hir ddisgwyl — bod y gwaith sydd eisiau ei wneud ar y cae chwarae wedi dechrau a hynny er gwaethaf y tywydd gwlyb. Gobeithio y bydd yn barod erbyn y gwanwyn i'r plant gael mwynhau eu hunain yno.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Nos Fercher, 16 Rhagfyr, cawsom Noson o Garolau gyda Seindorf Arian Deiniolen. Mae'r achlysur hwn

bellach wedi dod yn beth blynyddol. Talwyd y diolchiadau iddynt gan Mrs Megan Morris, Minffordd. I ddiweddu'r noson cafwyd paned o de, bara brith a mins peis. Diolch i'r rhai a fu'n paratoi'r baned.

Nos lau, 7 Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn o dan ofal Eglwys Sardis.

Erbyn y daw'r Eco o'r wasg bydd Mr Eurig Wyn, Y Groeslon wedi ymweld â ni.

Nos lau, 4 Chwefror, am 7 o'r gloch, fe gynhelir Noson Lawen o dan ofal Mrs Mattie Hughes, Llanberis.

Nos lau, 11 Chwefror, am 7 o'r gloch, fe berfformir drama gan Gwmni Drama Llanberis.

Nos lau, 18 Chwefror, am 7 o'r gloch, ceir noson yng nghwmni y Parchg Idris Thomas, Trefor.

Fel y gwelwch mae rhaglen wych ar ein cyfer ym mis Chwefror ond os ydym am gynnal y Gymdeithas y gaeaf nesaf bydd yn rhaid cael mwy o gefnogaeth gan fod nifer yr aelodaeth wedi gostwng yn arw ers y llynedd. Diolchwn am y gefnogaeth yr ydym yn ei gael o Ddeiniolen.

EISTEDDFOD. A fydd caredigion yr Eisteddfod mor garedig a dod i'r Ganolfan, nos Fawrth, 2 Chwefror am 6 o'r gloch, i drafod a fydd yna Eisteddfod eleni.



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

CHWILOTA

'OES GEIFR ETO?'



Yn dilyn yr adroddiad yn yr *Eco* diwethaf ynglŷn â Chorlan y Geifr ger Gallt y Celyn yn y Clegir, daeth galwad ffôn oddi wrth Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo. Roedd y wybodaeth oedd ganddo yn ychwanegu at enwau yn ardal y Clegir yn cynnwys y gair 'gafr' neu 'geifr'. Gerllaw Gallt y Celyn, ond rhyw ganllath yn is na ffordd y Clegir, ac ar dir Llwyncoed, mae cae o thua hanner acer a elwir yn 'Beudy Geifr'. Mae olion corlan yn yr ochr ddwyreiniol ohono. Mae'n ymddangos fod adeilad wedi bod ar y tir ar un cyfnod, ond mae'n ansicr a oedd tyddyn yno neu feudy o fath. Mae'r tywydd gwlyb dros yr wythnosau diwethaf wedi ei gwneud yn amhosibl i grwydro'r ardal i chwilio'n fanylach, ond bûm yn astudio cofnodion cyfrifiadau y ganrif ddiwethaf rhag ofn bod Beudy'r Geifr yn cael ei gofnodi.

Does dim sôn am y fath enw yng Nghyfrifiad 1841, ond yng Nghyfrifiad 1851 daw'r enw 'Llwyn Tŷ'r Geifr' i'r amlwg. Yng nghofnodion y Cyfrifiad mae wedi ei restru yn dilyn 'Bwlch Gwnnog' — sy'n awgrymu ei leoliad, ond nid o reidrwydd. Chwarelwr gweddwr o'r enw William Griffiths oedd yn byw yno ar y pryd. Roedd yn 49 oed, ac wedi ei eni yn Llangwyllog. Roedd ei fab, un ar ddeg oed, o'r un enw, yn byw gydag ef. Ganed y bachgen yn Llanrug, sy'n awgrymu bod y teulu wedi byw o fewn y plwyf ers 1840 — ond nid yn Llwyn Tŷ'r Geifr.

Erbyn Cyfrifiad 1861 mae Llwyn Tŷ'r Geifr yn cael ei gofnodi ar Llanberis Road, rhwng Glyn Padarn a Bryn Hyfryd. (Rhaid cofio bod y rhan hon ym mhlwyf Llanrug bryd hynny ac nid ym mhlwyf Llanberis fel heddiw.) Yn 1861, pâr priod sy'n byw yno: Robert John Jones, 37 oed, labrwr yn y chwarel, ac yn enedigol o blwyf Clynnog; ei wraig, Janet, 39 oed, yn enedigol o Lanberis.

Mae gosodiad yr enw 'Llwyn Tŷ'r Geifr' ar restrau'r cyfrifiadau yn awgrymu dau leoliad gwahanol, ond mae'n anodd penderfynu ble'n union roedd y tŷ (neu dai). Ac nid yw'n taflu unrhyw oleuni ar 'Beudy'r

Geifr' — eto yn yr un ardal. Pam tybed fod 'geifr' yn cael eu cofio mewn enwau yn ardal y Clegir? Tybed a oes arwyddocâd arbennig iddo, yntau cyddigwyddiad yw'r cwbl? Rwy'n dal i obeithio clywed gan ddisgynyddion rhai o'r teuluoedd fu'n byw yn y Clegir.

MWY AM Y CYSYLLTIADAU Â PHEN LLŶN

Gan Huw Roberts, Pwllheli (gynt o Lanberis) y daeth llythyr yn ychwanegu at y cysylltiadau rhwng y fro hon â Phen Llŷn dros dri chan mlynedd yn ôl. Fel hyn mae'n sgwennu: 'Mae stori Gaynor ap Thomas yn ddiddorol. Os 'drychych chi yn Griffiths — roedd Rhys Wynn ap Maredudd ap Evan (Gwydir) wedi priodi aeres Llwyn Bedw, ac yn byw yno. Mab iddo, John aeth i Gastellmarch ger Abersoch. Bu farw Rhys Wynn yn ieuanc tua 1530. Ailbriododd ei weddw â Tudur Thomas ap Dafydd o Lanllyfni a mynd i fyw i Pistyll (Gwynus?). Claddwyd hi yn Nefyn a'i gŵr ym Mhistyll.'

Felly, dyma ddilyn y cyngor a chwilio yn Griffiths (sef y Pedigrees y cyfeiriwyd ato yn rhifyn Rhagfyr o'r *Eco*). Mae'n amlwg fod Maredudd ap Evan yn dipyn o dderyn. Bu farw ym Mawrth 1525 a'i gladdu yn Nolwyddelan. Ef brynodd stâd Gwydir, ac yr oedd yn hen daid

i'r enwog Syr John Wynn o Wydir, a ysgrifennodd hanes y teulu. Bu Maredudd yn byw am gyfnod yn y Crug, Llanfairisgaer. O'i briodas gyntaf ag Ales ach William Griffith, Cochwillan roedd ganddo ddeg o blant. Rhys Wynn oedd y trydydd mab. O'i ail briodas â Gwenhwyfar ferch Gruffydd ap Hywel roedd ganddo ddwy ferch. Roedd hefyd yn cydfyw â Margaret ach Morris o Glennenau (tra roedd ei ail wraig yn fyw!) a chawsant naw o blant. Roedd hefyd yn cydnabod ei fod yn dad i naw eraill o blant anghyfreithlon gan bedair merch wahanol! Dyna gyfanswm o ddeg plentyn ar hugain.

Priododd Rhys Wynn ap Maredudd (y trydydd mab) â Margaret ach Robert o Lwynbedw, Llanberis ac yr oedd iddynt bedwar o blant. Mae'n ymddangos eu bod wedi byw yn y Tŷ Canol, Llanberis. Cyhoeddwyd ysgrif yn *Y Gwyllydd* yn 1830 — a'i ailgopïo yn llyfr William Williams — *Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis a'r Amgylchedd* — yn cadarnhau'r cysylltiad. Yn yr ysgrif, dywedir bod Rhys Wynn ap Maredudd a'i fab, Sion ap Rhys Wynn, wedi byw yn y Tŷ Canol, Cwmbrwynog. Nodir hefyd fod ewyllys Rhys Wynn wedi ei dyddio Rhagfyr 1531.

Priododd Sion (neu John) ap Rhys Wynn ag Annes ach John Roberts, Castellmarch. Roedd iddynt chwech o blant, Humphrey oedd yr hynaf, ac ef a etifeddodd diroedd Llwynbedw, Llanberis. Yn ôl Griffiths' Pedigrees, yr Humphrey hwn a werthodd diroedd Llwynbedw i deulu Williamsiaid Y Faenol, '... on which now stands the far-famed Dinorwic Quarries.' Tybed a oedd Llwynbedw, bedair canrif yn ôl, yn stâd digon mawr i gynnwys llethrau'r Elidir?

Ni cheir eglurhad ar paham y symudodd Margaret Llwynbedw i fyw i ardal Pistyll a Nefyn ar ei hail briodas. Ond yno y mae lloliad Gwynus, a roes y cyfenw Gunnis i deulu Gaynor ach Thomas o Landdeiniolen. Cymhleth?

A dyma un cofnod pellach i gymhlethu'r cysylltiadau. Mae Rowland Williams, a fu'n rheithor Llanrug, yn enwi Richard Gunnis, 'gentleman of Llanengan' fel sgutor i'w ewyllys; ond pan brofwyd yr ewyllys honno yn 1725, ceir fod Richard Gunnis 'denounce in favour of David Williams, Rowland Williams' son.' Beth felly oedd cysylltiad Richard Gunnis, Llanengan â Rheithor Llanrug, a pha Richard Gunnis a enwir yn yr ewyllys? Roedd Richard Gunnis, wŷr Gaynor ach Thomas, Llanddeiniolen yn fyw yn 1724 (fe'i cofnodir fel warden eglwys yn Llanengan), ond ni wyddom ddyddiad ei farw. Roedd ei fab, Richard Gunnis (eto) yn byw yn Llanengan a bu farw yn 1729. Gallai unrhyw un o'r ddau fod y Richard y cyfeirir ato yn ewyllys Rheithor Llanrug.

Bydd angen llawer mwy o gloddio mewn ewyllysiau a hen ddogfennau i ddarganfod yr union gysylltiadau hyn rhwng teuluoedd o fro'r *Eco* â Phen Llŷn.

Ond i orffen ar nodyn ysgafnach: dywedir bod Wiliam Cynwal wedi ysgrifennu cywydd i Sion ap Rhys Wynn o'r Tŷ Canol, Cwmbrwynog — yn gofyn geifr! Mae'n amlwg bod digon o'r rheini ar gael yn yr ardal bedwar can mlynedd yn ôl. Tybed a fu rhai o ddiadelloedd Sion ap Rhys Wynn yn crwydro tua'r Clegir?

YMHOLIADAU ERAILL

Daeth darllenwyr eraill (o bell ac agos) i gysylltiad â mi ynglŷn â gwahanol bynciau a ymddangosodd yn y golofn dros y tri mis diwethaf. Ymddiheuraf am beidio eu cynnwys y mis hwn ond bydd adroddiadau llawn yn dilyn y tro nesaf. Gyda diolch i bawb am eu diddordeb. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

FAVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Eframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Carreg wrth garreg

Mae Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn gofyn am gymorth pobl gogledd Cymru i ddodrefnu rhes o dai chwarelwyr sy'n cael eu hail-godi ar y safle ar hyn o bryd.

Yn ystod y misoedd diwethaf rhoddwyd rhifau ar bob carreg a llechen o dai 1-4 Fron Haul, Tanygrisiau. Yna, garreg wrth garreg, fe'u tynnwyd i lawr yn ofalus a'u symud i'w cartref newydd yn yr Amgueddfa yn Llanberis.

Yn awr mae'r gwaith o ailgodi'r tai yn mynd rhagddo a disgwylir y bydd y rhes gyfan wedi eu cwblhau erbyn diwedd mis Mai 1999. Mae staff yr Amgueddfa wrthi'n brysur yn cynllunio sut i ail-ddodrefnu'r tai gyda'r bwriad o'u cael yn barod i'w hagor i'r cyhoedd erbyn dechrau tymor yr haf 1999.

'Ni fyddwn yn ail-ddodrefnu'r tai fel yr oeddent yn Nhanygrisiau yn 1997,' meddai Tudur Jones, Swyddog Dogfennaeth yr Amgueddfa. 'Yn hytrach, byddant yn adlewyrchu cynnodau allweddol yn hanes y diwydiant llechi yng nogledd Cymru.'

'Bydd un o'r tai yn cael ei ddodrefnu fel ydoedd pan adeiladwyd y rhes, oddeutu 1860. Bydd yr ail yn nodweddiadol o dŷ chwarelwr ym Methesda yn 1901, pan oedd y Streic Fawr y Penrhyn yn ei hanterth; a bydd y trydydd yn

cynrychiol tŷ yn Llanberis yn 1969 pan gaewyd gweithdai y Gilfach Ddu. Canolfan gweithgareddau rhyngweithiol fydd y pedwerydd tŷ, a'i swyddogaeth fydd rhoi gwell dealltwriaeth i ymwelwyr o fywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd.

'Rydym felly yn chwilio am gelfi o'r gwahanol gyfnodau hyn. Dodrefn, eitemau cyffredinol i'r tŷ: celfi cegin gan gymwys sosbenni a phadelli, platiau, llestri, lluniau, darluniau, cofroddion llyfrau a recordiau, hynny yw, unrhyw beth a fydd yn helpu i ailgreu nawws y cymunedau chwarelyddol hyn.'

Mae ailgodi rhifau 1-4 Fron Haul yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn ddigwyddiad o bwys yn hanes datblygiad yr Amgueddfa, fel yr eglurodd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa:

'Dyma un o'r prosiectau pwysicaf i ni ymgymryd ag eferioed yn yr Amgueddfa Lechi, ac mae'n rhan o'r gwaith a wnaed yn bosibl gan ein cais llwyddiannus am grant o £1.6 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.'

'Rydym yn cydweithio'n agos ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, sy'n ennog am ailgodi a dodrefnu adeiladau cynrychioliadol pwysig o bob rhan o Gymru, megis tai Rhyd-y-Car y rhes o dai diwydiannol o Ferthyr Tudful, sydd bellach yn Amgueddfa Werin Cymru. Rydym am i rifau 1-4 Fron Haul ein helpu i ddehongli hanes i ymwelwyr. Bydd y tai yn dangos sut yr oedd y chwarelwyr a'u teuluoedd yn byw ac yn adlewyrchu'r newidiadau a'r ffasiynau ym mywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd.'

Byddai staff yr Amgueddfa yn falch o glywed gan unrhyw un sydd ag atgofion am y tai hyn. os ydych yn meddwl fod gennych unrhyw eitemau a all fod yn addas, hyd yn oed os nad ydynt yn cyd-fynd yn llwyr â'r gwahanol gyfnodau, a fydddech cystal a chysulltu â'r Amgueddfa ar (01286) 870630 a gofyn am Tudur Jones, Julie Williams neu Celia Parri, cyn diwedd mis Mawrth os yn bosib. Ni ddylid mynd ag eitemau yn uniongyrchol i'r Amgueddfa.



Dilys Jones, dirprwy reolwr gwasanaethau ymwelwyr yr Amgueddfa, o flaen dresel yn Nhŷ'r Peiriannydd. Mae'r eitemau yma yn debyg i'r rhai sydd eu hangen i ddodrefnu tai Fron Haul.



Tudur Jones, swyddog dogfennaeth yr Amgueddfa yn edrych ar ei gasgliad personol o recordiau a fydd yn ychwanegu at gasgliad o eitemau ar gyfer Fron Haul.

CANOLFAN FFITRWYDD P.C. Hen Safle Marconi Waunfawr

(01286) 650011

- ★ OFFER RHAGOROL ★
- ★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
- ★ CAWODYDD ★
- ★ TALU WRTH Y DRWS ★
- ★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:

11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:

1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN (01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

✕

Ffôn: (01286) 870253

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Bu Siôn Corn yn Ffair Plaid Cymru cyn gorffen ei waith am eleni.

CYDYMDEIMLO. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn gorchwyl drist yw gorfod cydymdeimlo â phedwar teulu yn eu profedigaethau o golli rhai annwyl.

Yn dawel yng nghartref ei mherch, Ildid, bu farw Mrs Ellen Lewis, Tŷ Ysgoldy (gynt o Tai Isaf). Cydymdeimlwn â Gwen, Ildid ac Ifan yn eu profedigaeth o golli eu mam.

Yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Doreen Parry, 16 Bro Waun, mam Betty, Dylan, Brian, Sharon, Yvonne a Terry. Cydymdeimlwn â hwy yn eu profedigaeth drist.

Hefyd bu farw tad Shirley, 8 Stad Tŷ Hen a chydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth.

Cydymdeimlwn ag Anita Pierce, Nant Bach yn ei phrofedigaeth o golli ei mham, Mrs Blodwen Pritchard, 4 Tref Eilian.

Cydymdeimlwn â theulu Mr Glyn Owen a fu farw yn Ysbyty Eryri.

DIOLCHIAU

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Ellen Lewis, Tŷ 'Sgoldy ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a thyner. Dymunant ddiolch yn arbennig i Feddygfa Waunfawr a'r gofalywyr cartref am eu gofal a'u cyfeillgarwch. Diolch hefyd i'r Parchedigion Myfanwy Davies a Gwenda Richards.

Dymuna Jane, Glaslyn, 24 Bro Waun ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion a'r teulu i gyd am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 70 oed. Diolch i Rol a Gwenlli am yr englyn i nodi'r achlysur. Diolch o galon i bawb. Dymunwn ninnau i gyd ben-blwydd hapus iawn ichi Jane.

Dymuna David a Nia, 15 Bro Waun ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mr John Cotton, Stad Tŷ Hen ddiolch i'w ffrindiau a'i deulu am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Mae'n ymddiheuro am feth anfon cardiau Nadolig eleni gan ei fod yn yr ysbyty.

Dymuna Bethan, Gwernydd ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CROESO. Croeso yn ôl i'r Waun i Phil a Delyth Lowe a'u teulu bach. Gobeithiwn yn fawr fod Carwyn yn gwella wedi iddo ddisgyn a brifo ei lygad. Bu yn yr ysbyty dros nos.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Sioned a Darren, Dôl Erddi ar enedigaeth mab bach, Cynan, brawd bach i Elin.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Jên Rowlands a Julian Thomas, Angorfa ar eu priodas ar Ragfyr 29 yn Swyddfa'r Cofrestru.

BEDYDD. Yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parchedig Myfanwy Davies yn gweinyddu, bedyddiwyd Sioned Jones, Haulfryn. Hefyd derbyniwyd Sioned, Elaine a James Paul, 'Rala'; Siân Jones, Tŷ'n Twll; a Lowri Edwards, Melin y Wig, yn gyflawn aelodau o'r Eglwys.

MEWN YSBYTY YN LLUNDAIN. Cyfarfu Dylan Pierce, Bryn Gwyn â damwain erchyll yn ei waith yn Llundain. Anfonwn ein cofion ato yn un o ysbytai y ddinas.

DYWEDDIAD. Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Jason Anderson, Stad Tŷ Hen ar ei ddyweddiad ag Eleri Thomas o Garmel.

NEWID SWYDD. Dymunwn y gorau i Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn yn ei swydd newydd mewn swyddfa cyfreithwyr yng Nghaernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn festri Capel Croesywaun bnawn lau, Ionawr 7. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Catherine A. Jones. Cyfeiriodd Mrs Jones fod Mr a Mrs John Smith, Cilfechyd yn gadael yr ardal a dymunodd yn dda i'r ddau yn eu cartref newydd. Roedd Mrs Smith wedi bod yn aelod ffyddlon iawn o'r Sefydliad am flynyddoedd. Y siaradwr gwadd oedd Mr Hugh Jones, Llanwnda. Mae Mr Jones yn fridiwr ebolion Cymreig ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Sioe Llanellwedd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am geffylau yn gyffredinol cyn sôn am y cobiau Cymreig. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Mair Parry.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, Ionawr 11, yn y Ganolfan, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas. Y gŵr gwadd oedd Mr Norman Williams o Ffilmiau Eryri. Eglurodd yn ddiddorol iawn sut y maent yn mynd ati i wneud ffilm gan roi esiamplau o'r gwaith. Diolchwyd iddo gan Mr R. Gwynn Davies. Llywydd y noson oedd Mrs Rhian Ellis. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 8, pryd y ceir sgwrs 'Môr Ladrôn yng Ngwynedd yn Oes Elisabeth I' gan Mr Eryl Rothwell Hughes o Bensarn. Croeso cynnes i bawb.

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 5 Rhagfyr, yng Nghapel Brynaerau, Pontllyfni, priodwyd Nia Rhonwen Jones â David Wyn Jones. Gweinyddwyd gan y Parchedig Geraint Roberts.

Ail fab Gwilym ac Emsul Jones, 15 Bro Waun yw David a Nia yn unig ferch John Parrington a Menna Jones, Hyfrydle, Garej Pontllyfni.



Roedd gwisg y briodferch wedi'i gwneud o sidan pur lliw ifori. Y forwyn oedd Eleri Haf R. Thomas, cyfnither Nia, ac roedd ei gwisg hi o satin porffor tywyll. Ffion Mair, ei nith oedd y forwyn fach a'i gwisg hithau o'r un defnydd â'r briodferch wedi ei haddurno â satin porffor.

Alun Rhys Jones, brawd y priodfab, oedd y gwas ac Alun Llywelyn, nai'r briodferch, oedd y gwas bach. Gareth, Glyn a lolo, brodyr y briodferch oedd y tywyswyr.

Cynhaliwyd y neithior a'r parti nos yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon.

Treuliwyd y mis mêl ar ynysoedd y Maldives a bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 32 Ffordd De Segontiw, Caernarfon. Dymunwn pob bendith a'n dymuniadau da iddynt yn eu bywyd priodasol.

PLAID CYMRU. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd at lwyddiant y Ffair Nadolig. Bu Siôn Corn yn brysur y noson honno hefyd yn darparu anrhegion i blant y pentref — diolch arbennig iddo fo!

Cychwynnir Clwb Tŷ Stesion unwaith eto ym Mryn Eirian ar nos Sadwrn olaf y mis, am 8.30 p.m. I agor y tymor ceir Iona ac Andy i'n diddanna a'r tocynnau yn £3.

Am ragor o fanylion am weithgareddau'r flwyddyn cysyllter â Gill Brown (547) neu Jean Jones (444).

DIOLCH. Carwn ddiolch i brifathro, staff a disgyblion Ysgol Brynrefail am eu gwaith o blygu rhifyn Nadolig yr Eco. — Trefnydd Plygu.

ENILLWYR y Clwb 300 am fis Rhagfyr oedd: £40 Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt; £25 Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn; £10 K. M. Jones, Gorwel.

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon LLANRUG
Caernarfon
673513

LONDON GARAGE

FIAT FIAT

CWM-Y-GLO FIAT FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234

neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.

Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



CEIR ADAM



HURIO PREIFAT YN UNIG



LLEOL NEU HIRBELL



LLANBERIS
871539

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

ENILLWYR CLWB 200 y Neuadd am fis Tachwedd: £20 Ceri Evans, Parciau Rhos (195); £10 Kathryn Jones, Y Ddôl-wen (13); £5 yr un i Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Gwynfor Jones, 24 Cremlyn (22); Jane Elis, Glenydd, Y Ddôl (198); Jean Vize, Cefn Rhos (90); Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Emrys Read, 5 Cefn Cynrig (89); Dennis Harrison, Bakhita (181). Enillwyr mis Rhagfyr: £20 Catrin Williams, Bro Rhos (63); £10 Walter Griffiths, Ivy Cottage (189); £5 yr un i Nancy Humphreys, Ty'n Rhos (149); Margaret Williams, Llanddwyn (82); Geraint Elis, Cilgeran (97); Llinos W. Williams, Hafod (66); Dafydd Davies, Ponciau, Llangefni (47); Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); Evan Owen, Wern Las (103); Cheryl Williams, 2 Bryn Hyfryd (163). Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

MERCHED Y WAWR. Nos Sul, Rhagfyr 20, yng Nghapel y Cysegr dan nawdd y gangen cafwyd gwasanaeth Dathlu'r Nadolig. Llywydd y noson oedd Mrs Anne Elis a chroesawodd bawb i'r noson. Diolchodd i'r rhai oedd wedi ymwneud â'r gwasanaeth mewn unrhyw fodd. Yn arwain roedd Mrs Deilwen Hughes gyda Mrs Bet Owen yn cyfeilio. Cafwyd darlenniadau gan Mrs Anne Lewis a Mrs Eirlys Williams ac unawd gan Mrs Ellen Ellis. Canwyd carolau gan gôr y gangen dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths. Yn ogystal, cymerwyd rhan gan barti ieuencid Bethel dan arweiniad Mrs Deilwen Hughes a phlant adran babanod yr ysgol gynradd. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg W. R. Williams.

Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol nos Fercher, Ionawr 13. Croesawyd pawb gan y llywydd, Mrs Anne Elis. Cydymdeimlodd â rhai oedd wedi colli perthnasau agos: Mrs Lynwen Morris wedi colli ei thad; Mrs Jennifer Roberts hefyd wedi colli thad; a Mrs Enid Williams wedi colli ei mam-yng-nghyfraith. Dymuniadau gorau i Mrs Sheila Roberts ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolchodd y llywydd i bawb oedd wedi ymwneud â'r noson Dathlu'r Nadolig a hefyd yr aelodau a oedd

wedi ymuno â'r Plygain yng Nghapel Jerusalem, Bethesda.

Y gwŷr gwadd oedd Mr Gwynndaf Jones a'r heddwas Alan Bevan. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol ganddynt ynglŷn â diogelwch merched mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd. Diolchwyd iddynt gan Mrs Ellen Ellis. Gwestwragedd y noson oedd Mrs Bet Owen, Mrs Gwyneth Williams a Mrs Mary Evans. Enillwyr y raffl oedd Mrs Sharon Quinn a Mrs Enid Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Chwefror 10, pan geir noson gyda Ms Jan Daniels yn trafod Aromatherapy.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Yn ddiweddar, yn festri Bethel, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr John H. Hughes, Llanberis. Cyfeiriodd Mr Hughes at bedwar math o gelwyddau — tri nad oedd yn ei hoffi o gwbl ond mae celwydd golau yn eli i'r galon. Cafwyd nifer o storiâu

Anfoner pob deunydd i'w gyhoeddi Geraint Elis, Cilgeran (670726).

LLONGYFARCHIADAU i John ac Elizabeth Evans, Blaen Parc ar ddatlu eu Priodas Rhuddem ar 14 Chwefror, oddi wrth David ac Anne; Geraint ac Ann; Michael a Shân; Barrie a Ceri; Einir, Aled, Richard a Siôn.



Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul y Cysegr.

celwydd golau ganddo yn cael eu cyflwyno gyda dawn ac arddeliad. Diolchwyd i Mr Hughes gan y llywydd, Mrs Llinos Williams. DATHLU'R NADOLIG. Fore Sul, Rhagfyr 20fed, dathlwyd y Nadolig yn y Cysegr yng nghwmni plant yr Ysgol Sul. Cafwyd cyflwyniadau graenau gan y plant a bu i bawb dderbyn bendith yn y gwasanaeth. NEWYDDION O'CH GYMDEITHAS CHWI? A fydddech chi hoffi gweld newyddion am eich cymdeithas chwi yn yr Eco? A oes gennych stori i'w dweud neu gyfarchion i'w hanfon?

CYNGERDD

CÔR MEIBION
DYFFRYN PERIS

yn cyflwyno

MARY LLOYD DAVIES
ANNETTE BRYN PARRI
TREBOR EVANS, GWANAS

YN EGLWYS ST PADARN
LLANBERIS

nos Wener

12 CHWEFOR 1999

am 7.30 p.m.

Mynediad: £3.50 oedolion
£3.00 pensïynwyr a phlant

Tocynnau ar gael trwy ffonio
(01286) 871274 neu 87039
neu unrhyw aelod o'r Côr

Noddir gan FIRST HYDRO Cyf

DIOLCH. Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti Nadolig llwyddiannus i Ysgol Pendalar: Y Llythyrdy; Siop Treflyn; Gari Wyn, Ceir Cymru; Manweb; Gigatel.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)

Enterprises Limited

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

Parti yn y Paradocs



Hanner awr wedi chwech ar nos Lun, Rhagfyr 7fed, roedd pawb yn aros yn eiddgar am y bysiau i'n cludo i'r clwb nos yng Nghaernarfon. Y rheswm? Parti Nadolig y *Daily Post* ar gyfer holl ddisgyblion Brynrefail am ein bod wedi ennill y gystadleuaeth 'Dosbarth '99' yn ddiweddar.

Ar ôl cyrraedd y Paradocs fe agorwyd y drysau a chawsom oll gerdyn i gael dau ddiod a phaced o greision am ddim. Y cyfan a oedd yn rhaid i ni ei wneud felly oedd mwynhau!

Cawsom hwyl yn dawnsio, canu ac yn ennill gwobrau a

chyffrôdd pawb yng nghwmni'r gladiator 'Diesel' a chyn-gôlgeidwad Everton, Neville Southall. I'r rhai llwglyd roedd digonedd (gormodedd!) o fwyd wedi'i ddarparu gan Westy'r Celt.

Fel popeth cofiadwy, fe ddaeth y cyfan i ben yn llawer rhy gyflym. Dychwelom i'r bysiau tua 10.30 p.m. gydag anrhegion lu gan y *Daily Post*. Tan ganu a thrafod y noson wych y dychwelodd y bysiau â phawb adre'n ddiogel. Noson gofiadwy yn wir!

JONATHAN GORDON
RACHEL MORRIS

Gwobrwyo Dewi



Oherwydd ei fod wedi ennill y wobwr offerynnol bob blwyddyn yn ystod y saith mlynedd y bu'n ddisgybl yn yr Ysgol teimlwyd y dylai Dewi Griffiths o Fethel gael ei wobrwyo am y gamp arbennig yma.

Tybed a welir talent o'r fath eto?

Lluniwyd tlws arbennig iddo gan Mr Gwilym Williams, Parc Padarn, Llanberis mewn llechen leol gyda chorn wedi'i rhoi arni. Bydd yn rhywbeth i Dewi ymfalchïo ynddo ac i'w gadw am weddill ei oes.

Cyflwynwyd y tlws arbennig i Dewi gan y prifathro, Mr Eifion Jones, yng ngwasanaeth boreol yr Ysgol. Hefyd yn y llun mae Mr Gareth Hughes Jones yr athro cerdd.

Anest Williams ar ymweliad â Rhydychen

Cyrhaeddais goleg Somerville ddiwedd prynhawn Sul, wedi cynhyrfu ond yn nerfus hefyd. Ar ôl mynd i 'lodge' y porthor, lle cefais allwedd i fy ystafell, daeth yn amser dringo i fyny i bedwerydd llawr bloc concrid modern lle'r oedd fy ystafell. Diolch i'r nefoedd mai fy nhad oedd yn cario'r bag trwm o ddillad oedd gennyf!



Yn hwyrach euthum i far y coleg lle y cyfarfyddais â rhai eraill a oedd yn gobeithio astudio yn Somerville. Roedd yr ymgeiswyr eraill yn gyfeillgar a'r myfyrwyr ail-flwyddyn, a oedd yno i'n tywys yn groesawgar. Aeth criw ohonom allan am bryd o fwyd y noson honno ac ar ôl cyrraedd yn ôl i'r coleg, cefais daflen a fyddwn ei hangen i baratoi am y cyfweiliadau.

Y dydd canlynol roedd gennyf ddau gyfweiliad — un yn y bore a'r llall yn y prynhawn — ac er fy mod wedi dewis testunau i siarad arnynt o'r rhestr a dderbyniais y noson cynt, roedd rhai o'r cwestiynau'n teimlo fel eu bod yn amhosibl i'w hateb ar y pryd. Cefais gyfle i weld y dref ar ôl y cyfweiliadau ac i siopa ychydig!

Fore dydd Mawrth roedd darlith wedi ei threfnu ar gyfer yr ymgeiswyr Cemeg ac ar ôl cael clywed fy mod yn gallu dychwelyd adref amser cinio, treuliais y prynhawn yng nghanol y ddinas cyn gadael Rhydychen.


Yn ffodus, roedd gennyf ddigon o bethau i'w gwneud dros yr ychydig ddyddiau nesaf i beidio a chael amser i boeni am y cyfweiliadau nes i amlen frown gyrraedd drwy'r blwch llythyrau fore dydd Sadwrn. Nid oes geiriau a all disgrifio'r sioc a gefais wrth ddarllen y geiriau, '... we are pleased to tell you that we can make you an offer...' Y cwbl sydd angen ei wneud rwan yw pasio'r arholiadau lefel-A!

Newyddion Y


Parti Nadolig

Yn ôl yr arfer bu myfyrwyr chweched isaf yr Ysgol yn brysur yn trefnu parti Nadolig ar gyfer plant a phobl ifanc Ysgol Pendalar. Ers dechrau mis Tachwedd bu llawer o'r myfyrwyr o amgylch busnesau lleol yn gofyn am gyfraniadau tuag at y parti ac yna, ar drothwy mis Rhagfyr, rhynnodd nifer o'r myfyrwyr y tu allan i siopau Safeway ym Mangor a Chaernarfon.

Cynhaliwyd y parti ddydd Mawrth, 15 Rhagfyr, ac eleni daeth Ffilmiau Cardinal draw i ffilmio'r holl ddigwyddiad gogyfer rhaglen newydd ar S4C. Dilynodd y parti y traddodiad o'r plant yn cael eu diddanu cyn mynd i fwyta'r wledd. Eleni,



Plygu



Cafwyd andros o hwyl gan y disgyblion yn plygu argraffiad y Nadolig o'r *Eco*.

Chwysu peintiau wrth roi pob un at ei gilydd a phawb am y gorau i wneud mwy na'r nesaf,

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846



ELLIS WYN

SIOP Y BARBWR, YR HEN FARCHNAD
STRYD Y PLAS, CAERNARFON

- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

Ysgol Brynrefail

Ysgol Pendalar

cytunodd Dafydd Iwan ddod yn ôl am yr eildro o fewn ychydig flynyddoedd i roi ychydig o adloniant i'r plant. Roedd hi'n amlwg iddynt gael boddhad mawr yn canu rhai o'r hen ffefyrnau.

Carem ddiolch i'r Adran Arlwyio a nifer o'r myfyrwyr a fu wrthi'n brysyr yn paratoi'r wledd. Ac, wrth gwrs, ar y diwedd cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a ddosbarthodd anrheg i bob un o'r 61 disgybl a oedd yn bresennol.

Ond ni fyddai'r parti wedi bod yn llwyddiant heb gefnogaeth pennaeth y chweched, Mr Harri Jones. Diolch yn fawr iawn iddo am fod mor bwrdd ei gymwynas.

JENNIE LYN MORRIS



Eco



ac wrth gwrs roedd rhaid cael da-da am helpu! Er, ni pharodd y bocs Quality Street ddim wedi i'r hogia gael gafael arno!

Da iawn chi, a diolch yn fawr i bawb wnaeth helpu.

Cangen yr Urdd

Nos Lun, Rhagfyr 14eg, ymwelodd cangen yr Urdd ysgol â Chlwb Nos y Broadway Boulevard yn Llandudno, i gymryd rhan yn nathliadau Nadolig yr Urdd trwy ranbarth Eryri. Yno yn diddori'r dorf roedd yr enwog Dafydd Du, Eden a Mega. Cafwyd noson llawn hwyl ac edrychir ymlaen at y trip nesaf!

Dyma luniau rhai o'r criw yn mwynhau eu hunain.

Llwyddiant pellach i'r hogia hŷn

Wedi tair buddugoliaeth gynharach, coronwyd tîm pêl-droed bechgyn hŷn Ysgol Brynrefail yn bencampwyr dan ddeunaw Ysgolion Gwynedd gyda buddugoliaeth yn y gêm derfynol yn erbyn Ysgol Friars, Bangor, ac felly yn symud ymlaen i'r rownd nesaf o'r Cwpan Cenedlaethol.

Er y mwd difrifol a'r pyllau dŵr ar gae y Friars diamheuol oedd agwedd a phenderfyniad yr hogia. Er i Aled Jones roi'r tîm ar y blaen yn gynnar, yn ddigon sydyn sgoriodd y Friars ddwy gôl ac roedd ergyd Rory O'Donnell ar drothwy hanner amser i ddod a'r gêm yn gyfartal yn bwysig iawn. Beth bynnag, wedi ambell newid deallus gan Mr Holland cryfhaodd y tîm yn ystod yr ail ran ac ar sail undod y tîm a pherfformiadau arbennig gan bawb a chwaraeodd golygodd goliau pellach gan Meilir Jones ac yna Aled eto, i ychwanegu at ei gyfrif sylweddol o goliau dros y tymor, fod y gwahaniaeth rhwng y ddau dîm pan orffennodd y gêm yn gyfforddus gyda sgôr derfynol o bedair gôl i ddwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae pêl-droedwyr ieuengaf yr Ysgol wedi bod yn gyson llwyddiannus. Braf yw gweld yr 'hen' hogia yn ychwanegu at eu llwyddiant ac yn dangos, yn enwedig â rhai yn eu blwyddyn olaf ym Mrynfrefs, fod yr hen allu yn dal yno ac yn dal yn ddigon tebol i roi sialens i'r 'wonderkids'!

Y tîm: Glyn, Iolo, Martin Willis, Martin Watkinson, Gethin, Meilir, Andrew, Gerallt, Rory, Aled, Mark, Gareth Jones, Gareth Griffiths a Robin.

ADRODDIAD GAN MEILIR JONES (Bl. 13)

Chwarae Rygbi i Ogledd Cymru



Dau aelod o dîm Gogledd Cymru dan 12 o'r ysgol a chwaraeodd yn erbyn tîm o Gaer ar Ragfyr 20fed. Iwan Morris (Llanberis), oedd hefyd yn gapten y tîm, yn chwarae yn safle rhif 8 ac yn sgorio cais penigamp, a Gwion Owen (Bethel) oedd yn gefnwr cadarn yn rhif 15. Sgôr terfynol 21-2 i Ogledd Cymru ac Iwan yn falch iawn fod ei dîm wedi llwyddo i ennill. Edrych ymlaen nawr at gêm yn erbyn Abertawe. Pob lwc hogia!

Noson Garolau

Braf oedd gweld Eglwys Sant Padarn, Llanberis dan ei sang nos Iau, Rhagfyr 17ef. Rhieni, ffrindiau, athrawon a disgyblion yr Ysgol yn eu Gwasanaeth Carolau blynyddol.

Cafwyd eitemau o safon uchel iawn gan gynnwys darlenniadau, unawdau, partïon, corau a'r band gan ddisgyblion o flwyddyn 7 i 13.

Pleser oedd cywedd cadeirydd y llywodraethwyr, Mr Dewi Rowlands, yn canmol ymdrechion y disgyblion. Gwerthfawrogi yn fawr iawn y gefnogaeth frwd gan drigolion yr ardal sydd mor barod i roi eu hamser i gefnogi ymdrechion y plant.

Chwech o'r gorau

Mae llwyddiant tîm pêl-droed Blwyddyn 9 yn parhau. Hwyl bellach yw pencampwyr cylch Eryri. Yn ddiweddar bu'n rhaid iddynt deithio i Ysgol Emrys ap Iwan yn Abergele. Rhyddhawyd disgyblion ysgol y tîm cartref i wyllo a chefnogi tîm eu hysgol — ac i geisio dychryn criw Brynrefail! Ond, 'sgersli bilif', gyda'r pedwar yn y cefn fel wal frics, fe enillwyd y gêm gan Brynrefs o 6 gôl i 2. Yr arwr oedd Jonathan Gordon a sgoriodd dair gwaith. Daeth y goliau eraill gan Marcus Orlick (2) a Paul Hughes. Fel pencampwyr byddant yn cael gêm gartref yn erbyn ysgol o'r hen sir Clwyd yn rownd y 16 olaf ledled Cymru.

Llwyddiant Cerddorol



Llongyfarchiadau i'r tri bachgen am lwyddo mewn arholiadau cerdd yn ddiweddar — Gwion Owen (Bethel), gradd 2 gyda merit am chwarae'r cornet; Dafydd Pritchard (Llanberis), gradd 3 gyda merit am chwarae'r corn; Guto Wynne (Llanrug), gradd 3 gyda merit am chwarae'r cornet.

Meistroli Mathemateg

Llongyfarchiadau i Joe Hill o Glwt-y-bont, ac Iwan Williams o Lanrug ar gael eu dewis i fynychu dosbarthiadau Meistroli Mathemateg ym Mhrifysgol Bangor.

Darperir y sesiynau gan athrawon a darlithwyr i feithrin diddordeb a gallu mathemateg-

wyr gorau blwyddyn 9 yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

Cynhelir y sesiynau dros gyfnod o bump dydd Sadwrn yn ystod y tymor yma.

Edrychwn ymlaen i glywed eu hanes.

★ YN EISIAU ★

TOCYNNAU 'FREE BOOKS FOR SCHOOLS' SYDD I'W CAEL MEWN PAPURAU NEWYDD AC AR GEFN PACEDI CREISION WALKERS.

Anfonwch nhw i Lyfrgell yr Ysgol, os gwelwch yn dda

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

YMDDIHEURIAD. Yn rhifyn Tachwedd o'r Eco fe ddiolchwyd i Mrs G. Kirkpatrick am ei rhodd i'r Ganolfan Gymuned er cof am ei mab, Nigel. Mewn camgymeriad nodwyd y swm anghywir, mewn gwirionedd fe roddwyd £100 ac nid £10. Ymddiheurwn yn arw am hyn.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Bet Jones, Lyndale ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati y Nadolig. Diolch i'r plant am bob dim a blwyddyn newydd dda i bawb.

Hefyd fe ddymuna Mrs Angela Jones, 12 Nant y Glyn ddiolch o galon i'r rhai hynny a aeth i'w gweld yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac hefyd am y cardiau a'r galwadau ffôn.

CYFARCHION. Dymuna Mrs Jones, Madryn, flwyddyn newydd dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd, gobeithio fod pawb wedi cael Nadolig hapus.

GWAELEDD. Deallwn fod llawer o bobl y pentref yn dioddef o effaith y fflw a sawl un yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion atoch i gyd, a gobeithio y bydd pawb yn gwella yn fuan.

MARWOLAETH. Trist iawn yw cofnodi marwolaeth gŵr ifanc o'r pentref. Bu farw Nigel John Humphreys mewn damwain erchyll yn 29 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant iawn i'w dad, Mr Ronnie Humphreys, ei chwaer Susan ac i'w deulu bach yn Neiniolen.

CAPEL Y RHOS. Cynhaliwyd

Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul ar 19 Rhagfyr am 10 y bore dan ofal yr athrawon a'r Parchg Dafydd Lloyd Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Mair Lloyd Hughes. Cymerodd 70 o blant yr Ysgol Sul ran ac roedd y gwaith yn ganmoladwy iawn.

Yn y prynhawn cafwyd te parti swnllyd gydag ymweliad ac anrheg gan Siôn Corn. Diolch i bawb am gynorthwyo hefyd am y rhoddion ariannol a'r bwyd.

Yn ystod mis Hydref penderfynodd Mrs Olwen Llywelyn roi gorau i fod yn athrawes yr Ysgol Sul. Bu'n ffyddlon a gweithgar i'r achos yn Llanrug am flynyddoedd. Anrhegwyd hi â dysgl o wydr Cymreig fel gwerthfawrogiad o'i chyfraniad.

Mae tymor gwanwyn prysur iawn gan yr Ysgol Sul:

Ionawr 31: Sul Addysg (casgliad arbennig i waith yr Ysgol Sul yng Nghymru);

Chwefror 17, 18 a 19: Chwaraeon yr Ysgol Sul (Canolfan Hamdden Arfon, pêl-droed a phêl-rwyd);

Mawrth 21: Gwrandawriad y Maes Llafur yn y Festri am 10 o'r gloch.

Ebrill 23-25: Penwythnos Coleg y Bala.

Mai 16: Cymanfa yr Ysgol Sul yng Nghapel Croesywaun, Waunfawr am 10 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Thomas, Bron y Nant ar ennill gradd M.A. mewn Hanes ym Mhrifysgol Bangor.



PRIODAS. Yn Eglwys St. Mary's, South Ruislip, Middlesex, ar y 5ed o Ragfyr, priodwyd Gwyn Bowie Thomas, Pontrug â Joanne Sarah Cavill o South Ruislip. Diwrnod hapus a phleserus iawn i'r teulu a ffrindiau oll. Byddant yn ymgartrefu yn Uxbridge, Middlesex. Dymuniadau gorau i chi eich dau yn eich bywyd priodasol gan y teulu a ffrindiau.

DIOLCH. Dymuna Gwyn a Joanne ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

NEWYDDION O'R YSGOL. Ffarwél a Chroeso'n Ôl: Ein diolch a'n dymuniadau gorau i Miss Bethan Jones sydd wedi dechrau ei swydd newydd fel dirprwy bennaeth ysgol Tal-y-sarn. Croeso'n ôl i'r ysgol i Mr Twrog Jones a fydd yng ngofal blwyddyn 3 am ddau dymor.

Cwrs Preswyl: Yn ystod wythnos gynta'r tymor cafodd 20 o blant blwyddyn 5 a 6, a Mr Wyn, gyfle i fwynhau cwrs pedwar diwrnod ar Addysg Bersonol yng nghwmni plant o Ysgol y Gelli, Caernarfon, yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Bu'n gyfle da i'r plant gymdeithasu ac ennill profiadau gwerthfawr drwy gydweithio a chyd-chwarae a chael cyfle i wneud defnydd llawn o adnoddau'r gwersyll. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar ennill tystysgrif cymhwyster mewn agweddau o gymorth brys.

Cystadlaethau'r Urdd: Bu timau pêl-rwyd a phêl-droed yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaethau'r Urdd, rhanbarth Eryri yn ddiweddar. Gwnaeth y genethod eu gorau yn erbyn timau neilltuoel o dda. Dim ond un gêm gollodd y bechgyn a hynny ond o un gôl yn erbyn y tîm a ddaeth i'r brig.

Cydymdeimlad: Yn ystod wythnos gyntaf Ionawr, bu farw tad-ying-nghyfraith Mrs Eirian Howells. Cydymdeimlwn â hi, Gwyn ei gŵr a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Hefyd cydymdeimlwn â Miss Elena Williams a gollodd ei hewythr yn frawychus o sydyn drwy ddamwain yn ei waith.

Llythyrau o Albania: Mae rhai o blant yr ysgol wrth eu bodd o dderbyn llythyrau o ddiolch gan blant yn Albania yn dilyn Ymgrych Plentyn y Nadolig.

DIOLCH. Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar: Caffi Cefn Coed; Cerrig Beddau; Ffenestri Celtic; Y Post; Siop Wavell; Penbont; Arvonnia; Glyntwrog; Elaine's; Siop Chips Tegfan; Spar; Siop Chips Pont-rhythallt; Becws; Ysgol Gynradd Llanrug; Garej Hafod.

CLWB IEUENCTID. Mae'r tymor wedi dechrau yn eitha prysur. Byddwn yn paratoi yn ystod yr wythnosau nesaf ar gyfer yr Ŵyl Ieuencid a gynhelir ym mis Chwefror. Bydd y cystadlaethau'n cynnwys wal graffiti, gwaith clai, collage, papur wal, gemwaith, ynghyd â llawer mwy. Bwriedir hefyd cael tîm dawnsio disgo a sgets ar ei gilydd er mwyn gallu cymryd rhan ar y noson.

Yn ogystal â pharatoi ar gyfer yr Ŵyl bydd y Clwb yn cael ymweliadau gan yr Heddwas Ian Williams a fydd yn sgwrsio am cam-ddefnyddio cyffuriau. I orffen y tymor mewn steil mae trip wedi'i drefnu i fynd i sgelfrio i Lannau Dyfrdwy yn ystod gwyliau hanner tymor.



Deuddeg o bobl ifanc Capel y Rhos a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau mewn gwasanaeth arbennig fore Sul, 24 Ionawr, gyda'u gweinidog y Parchedig Dafydd Ll. Hughes.

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

**ANTUR WAUNFAWR
GŴYL JOHN EVANS 1799-1999**

Y MADOGWYS gan Gareth Miles

Cwmni drama Dalier Sylw
yn y Ganolfan, Waunfawr, 25, 26, 27 Chwefror
am 7.30 yr hwyr

PIGYN CLUST

Detholiad o ganeuon America a Chymru
yng Ngwesty Snowdonia Parc Waunfawr, 28 Chwefror
am 8.00 yr hwyr

POW-WOW WAUNFAWR

1 Mawrth yn y Ganolfan, Waunfawr am 7.30 yr hwyr
Beirdd 'Merica a Chymru:

Iwan Llwyd, Louise Halfe, Twm Morus,
David Lloyd

BRYN PISTYLL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 721

**ANTUR
WAUNFAWR**

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cych)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Mae cyfle am hwyl yn y Clwb bob nos Lun a nos Iau a cheir cyfle i chwarae tenis bwrdd, badminton, pŵl, snwcer, gwrando ar gerddoriaeth a chwarae ar y cyfrifiadur ar y ddwy noson yn ogystal â chyfle i chwarae pêl-droed a phêl-fasged yn y gampfa pob nos Lun. Felly, cofiwch os ydych chi ym mlwyddyn 8 neu hŷn dewch draw rhwng 7 a 9 p.m. ar nos Lun a nos Iau am hwyl yn Ysgol Brynrefail.

MERCHED Y WAWR. Dymunwyd blwyddyn newydd dda i bawb gan y llywydd, Margaret Parry. Braf oedd gweld Gwenda Roberts, Hafle yn ôl yn ein mysg wedi'i gwaeledd. Llongyfarchwyd Olwen Huws ar ddod yn nain am yr eildro — ganwyd mab, Guto Rhys, i'w merch Delyth. Pob dymuniad da hefyd i Llion, mab Jean Roberts ar ei ddywedd i Sarah. Bydd Pwyllgor yr Anabl yn cynnal Distawrwydd Noddedig a diolchir i Beryl Thomas am gynrychioli'r gangen. Bydd yr elw yn mynd i Tŷ Gobaith. Tynnwyd ein sylw at Wasanaeth Ailgylchu Gwynedd — mae Antur Waunfawr, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, yn apelio ar i bawb ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu yn eu pentrefi a threfi. Mae yna gynllun dodrefn hefyd os oes dodrefn diangen gennych mae'r ganolfan ym Mangor yn fodlon eu cymryd a'u casglu. Bydd hyn yn helpu'r di-waith a'r rhai sydd ar incwm isel.

Gwraig wadd y cyfarfod oedd Bethan Gwanas gyda sgwrs a sleidiau am 'Y stori y tu ôl i'r llun'. Wedi iddi raddio mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth bu Bethan am gyfnod yn gweithio gyda'r VSO yn Nigeria, a dyna'r 'stori y tu ôl i'r llun' a gawsom. Storiâu difyr a hwyliog amdani hi a'i ffrind yn dysgu mewn lle anial heb drydan na dŵr yno. Bu'n dysgu'r plant bach croenddu yno a gwnaeth lu o ffrindiau. Roedd wedi rhyfeddu at eu glanweithdra er gwaethaf yr ychydig fanteision oedd ganddynt. Yn ei llyfr mae'n dadlennu ei phrofiadau od a rhyfeddol gyda nadroedd, geifr, afiechydon ac anhwylderau dieithr yn ogystal â'r chwithdod am bethau mor gyffredin â llefrith oer a phâr newydd o nicars! Roedd gwythien gref o hiwmor yn ei sgwrs fel sydd yn ei llyfr. Diolchwyd iddi am noson fyrlymus gan Margaret Parry a Phyllis Ellis.

Noson yng nghwmni Peredur Williams o Hufenfa De Arfon fydd nos Fawrth, Chwefror 9fed.

YSGOL GWAUN GYNFI. Bu pawb yn

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174



brysur iawn dros y Nadolig. Cafwyd cyngerdd llwyddiannus yng Nghapel Ebeneser ar y 10fed o Ragfyr gyda holl blant yr ysgol yn cymryd rhan a'r Parchg John Pritchard yn cloi'r cyfan yn ddifyr iawn.

Mwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus. Diolch yn fawr iawn i Anti Elan a staff y gegin.

Cafodd y plant sy'n perthyn i Aelwyd yr Urdd de parti a chwaraeon gyda diolch i weithgarwch y rhieni a'r staff.

Bu pawb hefyd yn Theatr Gwynedd yn gwyllo'r pantomeim 'Ogo, Ogo, Ogo'.

Yn y llun gwelir y plant yn mwynhau'r bwyd a'r gemau.

DIOLCH. Dymuna Sian Eilir a'r teulu,

2 Tai Gwyrfa, ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad-yng-nghyfraith a thaid, sef John Gwyn Evans, 12 Rhos-y-coed, Bethesda.

DIOLCH. Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar: Post Clwt-y-bont; All's Cabs Gareded, Deiniolen Motor Repairs; Garej Arfon; Siop Gwyn; A. O. Roberts Ltd; Cerbydau Ieuan Williams; Garej Beran; Wellington; Gym; Clwb Ieuenctid; G. J. and K. Jones; Bingo Bull; Ysgol Feithrin.

DIOLCH. Dymuna Bryan a Gwyneth Jones, Preswylfa, Clwt-y-bont ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli eu merch fach, Awen Fflur. Diolch i staff Ysbyty Alder Hey ac Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd a gwerthfawrogwn y rhoddion a dderbyniwyd tuag at y ddau ysbyty. Ein diolch diffuant i'r Parchg John Pritchard am ei gymorth i'n cynnal ac i Mr Gwynfor Jones a Mr Myrddin Pritchard am eu trefniadau caredig a thrylwyr.

Dymuna Mr Eddie Wyn Lewis, 18 Rhydfadog ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Mair Lewis. Diolch i Dr Robin Parry, Dr Sonia Maxwell a Dr Oddy am eu gofal. Derbyniwyd yn ddiolchgar roddion o £300 tuag at Feddygfa Deiniolen.

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646


CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:
(01286) 675754

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwg na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— **TENEUWCH** —
SLIM CHWIM MEWN DIM!



Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED. Mae'n siŵr eich bod wedi gweld ar y teledu ac yn rhai o'r papurau newydd fod cwmni creision Walkers yn cynnig llyfrau i ysgolion sy'n casglu'r tocyn a geir ar pob pecyn neu mewn ambell i bapur newydd.

Tybed a oes modd i chwi ein helpu trwy gasglu ar ein rhan? Mae'r plant eisoes yn brysur yn casglu ac mae cystadleuaeth ffyrnig yn cymryd lle i weld pa ddosbarth sy'n casglu'r nifer fwyaf o docynnau. Diolchwn ymlaen llaw am eich cydweithrediad. YR URDD. Ionawr 5ed mwynhawyd Cymorth Cyntaf gyda Mrs Jennie Morris Jones. Diolchodd Elin Glyn iddi am noson addysgol iawn. Bu hwyl a sbri wrth gadw'n heini gydag Anti Jean ar Ionawr 12fed a diolchodd Luke iddi am noson hwyliog dros ben. Ar Ionawr 19eg daeth rhai a'u 'Hoff Bethau' i'r cyfarfod gan sôn amdanynt. Ionawr 25ain, ar y cyd â phwyllgor y Neuadd, mwynhawyd Disgo Dwynwen ynghyd â chystadlaethau dawnsio a chynllunio cerdyn serch. Chwefror 2il bydd gemau o bob math gyda Marc Porter. Chwefror 9fed trefnir Cwis gan Ann Ifans. CROESO. Croesewir Eleri a Glyn i'n plith. Maent wedi cartrefu yn Ty'n Clwt. Gobeithio y bydd Llion a Llŷr yn setlo'n sydyn hefyd. CYLCH TI A FI. Bwriedir cynnal nosweithiau coffi tuag at Tŷ Gobaith. Ceir manylion yn y rhifyn nesaf.

LLONGYFARCHIADAU a phob hapusrwydd i Llion Roberts, Tai Croesion a Sarah o Bentir ar achlysur eu dyweddad yn ddiweddar. GWELLHAD. Hyderwn fod Mr Leslie Jones a Mrs Annie Williams, Meillionydd yn gwella wedi'u triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cofion annwyl hefyd i bawb sydd wedi bod yn sâl yn y pentref.

DIOLCH. Dymuna Jim a Margaret Munro ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau Nadolig a'r anrhegion a gawsant. Diolch yn fawr iawn am y pnawn difyr gyda'u ffrindiau yn y Parti Pentref yn Ninas Dinlle. Dymunir blwyddyn newydd dda i chwi oll.

Dymuna Aled Jones, 17 Bryntirion ddiolch i'w rieni, Dyfed, Sioned a Nain, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

PWYLLGOR NEUADD. Gwnaed casgliad o £36 gan y criw bychan o garolwyr a fu o gwmpas y pentref ar Ragfyr 21ain. Diolchir i bawb am eu haelioni a'r rhai a estynnodd groeso cynnes iddynt ar eu haelwyddyd. Gwnaed elw o £33 gyda Webb Ivory a diolchir i Phyllis am ofalu amdano.

Atgoffir chwi aelodau'r Clwb Cant yr adnewyddir yr aelodaeth yn awr — £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Diolchir i chwi am eich cefnogaeth a'ch ffyddlondeb. Enillwyr Clwb Cant Ionawr oedd: 1, Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr; 2, Lizzie Evans, Meirionfa, Pen-y-groes; 3, Sioned Mai, Tai Arthur.

Cynhaliwyd Disgo Dwynwen ar y cyd â'r Urdd, nos Lun, Ionawr 25ain. Diolchir i bawb am bob cymorth.

Y weithgaredd nesaf fydd Hwyl a Miri'r Pasg ym mis Mawrth. Diolchir i Gwen Griffiths am gytuno i gynorthwyo Ann Ifans gyda gwaith yr ysgrifennydd.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant fore Sul, Rhagfyr 20fed. Y thema oedd 'Y Goeden Nadolig fach, unig'. Diolchir i bob un am wneud eu gwaith mor dda ac i'r athrawon i gyd am eu gwaith diflino. Gwnaed casgliad anrhydeddus iawn tuag at gost gwresogi a goleuo'r capel. Daeth Siôn Corn i weld y plant ac eistedd wrth y goeden fach, hapus, erbyn

hynny. Cafodd pob un anrheg ganddo. Cyn ymadael cafodd pawb o'r gynulleidfa mins pei a cherdyn Nadolig ar ffurf coeden Nadolig fach lawen.

PARTI NADOLIG. Cynhaliwyd parti Nadolig aelodau Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen yn Neuadd yr Eglwys, bnawn Llun, Rhagfyr 21ain. Roedd tua 60 o blant yno yn mwynhau y danteithion ac yn gwylio fideo Nadoligaidd. Do, fe ddaeth Siôn Corn i'w gweld gydag anrheg i bob un. Diolchir yn gynnes iawn i Siôn Corn am ei eiriau caredig i bob un o'r plant. Diolchir i bawb a gyfrannodd at y parti.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys gan ddechrau nos Fercher, 3 Chwefror, am 8.00 o'r gloch a'r pris fydd £2.50. Bydd raffl, creision a diodydd ar werth.

Bydd gwasanaethau'r Grawys yn dechrau ddydd Mercher, Chwefror 17eg, yn Eglwys Crist, Deiniolen am 7 p.m. pryd y gweinyddir y Cymun Bendigaid.

DIOLCH. Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r Post am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

BLWYDDYN NEWYDD DDA. Dyna yw dymuniad tîm yr Eco yng Nghaeathro i bawb sy'n derbyn Eco'r Wyddfa. Erbyn hyn, trwy ddosbarthu o ddrws i ddrws a'r gwerthiant yng Ngarej Gwalia (trwy garedigrwydd Glyn Evans), mae'r gwerthiant bellach yn 65 o gopïau. Dylid anfon y newyddion bro i Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf neu Marian Huws, Tŷ Mawr, neu Clive James, Hafan.

CAPEL CAEATHRO. Un o flaenor-iaethau'r Capel yn 1999 fydd ethol blaenoriaid newydd a cheisio cael organydd cynorthwyol er mwyn ysgafnhau'r baich ar Ifor Hughes sy'n flaenor, ysgrifennydd ac organydd. Gan fod yr Henaduriaeth a'r swyddfa ganolog yng Nghaerdydd wedi cytuno i ryddhau'r arian fe obeitir dechrau'n fuan ar ailaddasu'r Capel yn ganolbwynt newydd y pentref. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Chwefror:

7. Parchg W. R. Williams (2)
14. Parchg Emrys Thomas (2)
21. Parchg W. R. Williams (2)
28. Parchg Gwynfor Williams (5.30)
YNYS ENLLI. Erbyn hyn mae Dafydd Williams, Llwyn Alice gynt, (brawd i Alison, 4 Tai Glangwna) yn byw efo'i wraig, Pauline, yn Nhŷ Pella, Ynys Enlli. Ei brif waith fydd bugeilio'r defaid a gofalu am y gwartheg a'r ceffylau. Bu'n ffermio am ddeunaw mlynedd yn Llanllyfni a Boduan. Cyn symud i Enlli roedd Dafydd yn blymar yn Butlins. Ar Ynys Enlli bwriadant dyfu llysiau, crasu bara, sefydlu caffi a chynnig gwely a brecwast i ymwelwyr. DIOLCH. Dymuna pensynwyr yr ardal ddiolch i gefnogwyr Tynfa Fisol

Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro, trwy aelodau'r pwyllgor, am eu bonws a'r cerdyn Nadolig.

CYNGOR CYMUNED. Gobeithiwn y bydd yr arwyddion melyn newydd, 30 m.y.a., sy'n cynnwys y geiriau 'Caeathro — gyrrwch yn ofalus / Drive slowly' yn eu lle yn fuan.

Bu oedi unwaith eto wrth geisio cael Adran Tai Cyngor Gwynedd i dorri'r tyfiant ar ochr tenantiaid 1 Bryn y Gof er mwyn gwella diogelwch y ffordd. Hefyd nid oedd swyddogion yr Adran Prifffyrdd wedi gweithredu eu haddewid i gyfarfod â'r cynghorydd lleol i archwilio'r gordyfiant ar Ffordd Pontrug.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais am drosglwyddo trwydded Tafarn Bryn Gwna.

Oherwydd diflaniad y gamfa rhwng Maes y Coed a Bryn Eglwys, a symud yr un ger y gwaith brics, gofynnir i Gyngor Gwynedd archwilio'r sefyllfa. Bu sylw hefyd ar gyflwr y sedd ar y 'sgwâr'.

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Ionawr oedd:

£40 Mary Henderson, 6 Erw Wen (78); £25 Idris Jones, Crud yr Awel (75); £15 David Jones, Cysurus (39); £5 Helen Jones, Maes y Coed (76).

APÊL

Beth am wneud adduned blwyddyn newydd i anfon pob math o adroddiadau, hanesion a digwyddiadau o'ch pentre chi i Eco'r Wyddfa. Gweler enwau, cyfeiriadau a rhif ffôn eich gohebydd lleol ar dudalen 2.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)


Ffôn: (01286) 675175 a 677858

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Llythyr o'r America

Cambria, P.O.
Wisconsin
Dec 24th 1884

Anwyl frawd,
Derbyniais dy garedig lythyr yr wythnos ddiwedda, a fel math o dalediogaeth i tithau yr wyf yn 'talw erchwyn adref' i tithau.

Da iawn oedd gennyf ddeall trwyddo eich bod chwi yna mor iach a chysurus, yn enwedig ti dy hunan. Yr oedd yn falch gennyf ddeall, yn ol dy dystiolaeth dy hunan, dy fod wedi cwbl wellhau. Gobeithio y gwneid barhau yn y cyffelyb iechyd. Am y rhan arall o'r teulu rwy deall eu bod yn gyffelyb.

Dylaswn fod wedi ysgrifennu yn nghynt ar ol derbyniad o'ch darluniau. Yr oeddwn yn falch o'i cael. Yr wyf wedi edrych a sylwi llawer iawn arnynt. Sylwi cymmaint nes y bu arnaf ofn i un o honoch ofn i mi 'Beth wyt yn syllu arnaf fi o hyd?'

Am ddarluniau Nhad a Mam, gallaf ddweud nad yw yr un ohonynt wedi altro dim. Y maent yn hollol naturiol i mi. Y mae yma sylwi garw iawn wedi, ac yn bod arnynt gan yr holl berthynasau. Y mae John Rowlands heb fod yma yn eu gweled etto, ond yr wyf yn ei ddisgwyl bob dydd. Y mae ef yn sicr o sylwi yn anghyffredin iawn, mwy na neb rwy'n sicr, am danat dy hun a Morris. Rhaid yw dweud y gwir amdanoch chwithau. Amdanat dy hun yr wyt yn edrych yn hollol yr un fath, yn naturiol. Yr oeddwn yn meddwl wrth graffu ychydig hefyd dy fod yn rhyw radd bach yn deneuach, ond gwell fod yn dipyn teneuach nag yn rhy dew fel Evan Jones (chwedl Huw Peris). Am Morris yr oeddwn yn cael golwg hynod iawn arno. Rwy'n disgwyl yn hir iawn cael darlun arall o Morris er mwyn cael gwir olwg arno.

Da gennyf ddeall fod Janet a Mary kate am ddod drosodd i edrych am danaf tua'r New Year yma.

Wel dyna ddigon am y darluniau. Cadwaf hwynt yn barchus iawn mewn album yn y Parlour goreu sydd yn y ty yma. Yr oedd Betty yn falch iawn o ddarluniau Nhad a Mam, ac y mae yn peri i mi i ddweud wrthynt y buasai yn falch iawn o'u gweled hwy yma am tua hanner blwyddyn yn visitio. Y mae yn dweud fod yn ddigon hawdd iddynt ddod. Yr holl blant wedi tyfu i fynu, a hwythau heb ddim i edrych ar ei ol. Meddyliwch am hyn. Y mae llawer eraill o'r teulu wedi bod yn son wrthyf y buasai yn dda gennynt

weled y ddau yma. Rwy'n sicr o un peth, na fyddai diwedd ar y croesaw a dderbyniant gan y perthynasau yn Welsh Prairie. Byddaf yn dweud wrthynt y peth tebycaf ydyw na ddeuant byth drosodd yma. Fod un o honynt ormod o ofn i Chwarel Dinorwig ddynysu trwyddi yn ei absenoldeb, ac fod y llall ormod o ofn y mor.

Hwyrach mai dyma y cyflusdra goreu i roddi ychydig o hanes fy Holydays i chwi rhag ofn i chwi feddwl mai gweithio diddiwedd yr ydyf yma, ac nad oes neb ond chychwi yna yn cael Holydays. Yr oedd fy nhymor ar ben y dydd cyntaf o'r mis hwn, ac yr oedd tymor y gwas arall ar ben y 16fed, felly cymerais fantais i gymeryd fy Holydays hyd pan ddeuai amser hwnw i fynu. Bum o ddydd Llun hyd ddydd Iau yn cymeryd amser da yn y 'Llan' yma. Gwneud dim ond cario dwr i'r merched a godro rhyw 6 o wartheg (achos y mae 9 eraill yn hysbion.)

Bore Gwener cychwynais am 5 o'r gloch i Columbus i Gymanfa Ganu oedd gan y M.Cal. yno. Yr oedd 5 o honom yn cychwyn oddi yma (yr oll yn fechgyn ieuanc) i Depot o'r enw Doylestown, 6 milldir oddi yma i gyfarfod y Train oedd yn gadael am 7, ac yn cyrraedd Columbus 7.40. 12 milldir o ffordd. Yr oll oddi yma yn 19 miles. Ar ol myned i lawr o'r Cars roedd rhaid dechreu edrych am y capel, a daethom o hyd iddo 2 and a half milldir i'r gorllewin o'r dref. Aethom i fewn ac erbyn edrych yr oeddem yno agos i awr yn rhy fuan. Doedd dim i'w wneud ond eistedd yn esmwyth wrth stove yn llawn o dan coed ac examnio ychydig ar y capel. Capel hardd iawn, lle i tua 500 cant eistedd ynddo, ac erbyn 10:30 yr oedd tua 400 yn eistedd ynddo, a'r cwbl yn edrych yn awyddus i ganu, ond tua hanner oedd yn gwneud. Soprano gorau iawn. Tenor cymedrol, Alto — dim o'i swm. Bass digon i grakio Wisconsin ar ei thrawst.

Aeth y cyfarfod boreuol heibio yn druenus iawn, ac erbyn hyn yr oedd pob dieithryn yn dechreu gwneud llygaid am le i lenwi'r canol. Cefais i fy nigoni o'r eisiau hwnw a elwi'r chwant bwyd mewn ffarm hanner milldir o'r capel a elwir Hafod Gwynfor, sef lle Michael Williams gynt o'r Hafod Gwynfor, Nant Uchaf. Y mae ef, Michael Williams, wedi marw ers tua 6 blynedd.

Yr oedd ei deulu yn falch iawn o fy ngweled er mwyn cael hanes y teulu yn Nant Uchaf. Nid oeddynt wedi clywed oddi yno ers blynddoedd. Yr oeddynt wedi synu

pan ddwedais am farwolaeth John Williams Beudy Mawr. Nid oeddynt wedi clywed yr un gair am dano.

Gallaf ddweud ychydig o'u hanes i chwi er mwyn i chwi ddweud wrth G. Williams Ty'n Tawel ac Owen Beudy Mawr a'i fam. Maint eu ffarm yw 80 acres, a hwnw wedi ei glirio i gyd oddi wrth goed gan yr hen wr M. Williams. Y mae yna le cysurus iawn mewn cysylltiad a phethau y byd hwn, ac fel yr wyf fi ar gael ar ddeall, eu bod yn dda iawn eu hamgylchiadau. Y maent yn cwyno yn aro iawn i Eglwys Bethel, Columbus ar ol M. Williams. Yr oedd yn ddyn crefyddol iawn, a'r goreu o neb am gyflawni at yr achos. Yr wyf yn meddwl ei fod yn flaenor yno. Y mae ei wraig ynghyd a'i mhab, Johnny, a'r ferch ieuengaf, Betsy. Dyna y cyfan sydd gartref o honynt. Y mae dwy ferch wedi priodi yn Chicago, ac un mab yn Minniapolis. Y maent wedi claddu mab a merch gartref yn y Spring diwedda, a'r ahi hynny dros eu 20ain oed beth bynnag. Nis gwn faint ond yr oeddynt wedi tyfu i'm mhaint.

Y mae y mab, Johnny, wedi claddu ei wraig ers 2 neu 3 blynedd. Buaswn yn meddwl ar ei olwg mai tua 30 yw ei oed. Am Betsy y ferch, 18 yw ei hoed hi. Y mae y wraig yn chwaer i'r gweinidog oedd yno, sef J. J. Roberts. Rhai o Llanrug ydynt hwy. Yr oedd hi yn holi llawer ynghylch gwraig John Williams, ond nid oedd gennyf ddim i'w ddweud am dani hi heblaw fy mod yn meddwl ei bod yn byw gyda Owen ei mhab. Bety Mur Mawr hefyd sydd yn chwaer iddynt onid ydyw? Felly y clywais ar ol dod oddiyno, ond ni

wyddwn i ddim bod Bety yn Mur Mawr, N. Uchaf o'r blaen.

Y maent yn deulu caredig iawn. Bum yno hyd bore dydd Mawrth yr wythnos ganlynol, ac wrth ymadael cefais wahoddiad taer yno etto yng nghorff y gauaf. Y mae yno dy newydd hardd iawn yn cael ei adeiladu. Yn ol fel y clywais mai lle i'r wraig newydd sydd gan Johnny, y mab, i ddod yno.

Cychwynais oddi yno am y Welsh Prairie yng nghwmpeini H. W. Hughes, mab Will Clogwyn Gwyn. Deuthym drwodd gyda'r train i le o'r enw Rio, ac wedi hynny cyrhaeddasom gartref y bachgen oedd gyda mi erbyn nos Fawrth, ac yno y cysgais y noswaith hono. A dderbyniasoch chwi yr 'American Views' a anfonais oddi yno? yr oeddwn yn meddwl y buasech yn falch o honynt. Os darfu i chwi wneud hysbyswch fi. Y mae tref Columbus yn dref debyg o ran maint i Llanberis, ond fod yr adeiladau yn fwy o ran maint o lawer iawn.

O'r Ceunant, cychwynais dranoeth hyd y Caledfryn, cartref fy ewyrth John R. Rowlands. Bum yno hyd nos Wener. Am 9 o'r gloch nos Wener y daethum adref i'r 'Llan'.

Dyma y lle y byddaf am y gauaf yma. Yr wyf wedi cyflogi hyd diwedd mis Mawrth.

Wel rhaid yw i mi ddwyn i chwi rhyw derfyn bellach, gan addaw ysgrifennu etto, os byw ac iach, ar ol y New Year's. Hwyrach y bydd gennyf rhyw newyddion erbyn hyn. Felly terfynaf gan ddymuno i chwi 'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda'.

Ydwyf dy ffyddlawn frawd,
OWEN

DRAENOG



Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Yn ein pentra bach y mae'r hen afr yn crwydro.

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Dilyn ci bach Brian mae'r hen afr fach honno.

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Yn siop Gari Reynolds mae'r hen afr yn siopio.

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Gari sy'n cael trafferth hel yr afr o fan'no.

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Fel gafr y fyddin fawr y mae yn ymlwybro.

Oes gafr eto?
Oes, heb ei godro —
Huw a'r afr yn cerdded o Lanbêr i Limbo.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CAPEL COCH. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul brynhawn Sul, Rhagfyr 20. Roedd yn wasanaeth graenus a'r plant yn amlwg yn mwynhau gwneud eu rhan. Roedd paned a mins pei wedi'i baratoi ar derfyn yr oedfa. Diolch i athrawon yr Ysgol Sul am baratoi'r gwasanaeth ac am eu holl waith ar hyd y tymor. Cafwyd y parti Nadolig y prynhawn Mawrth canlynol a daeth Siôn Corn i'n gweld. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i bawb a gyfrannodd nwyddau ar gyfer y parti. Roedd parti Nadolig y Cyfarfod Plant wedi cael ei gynnal wythnos ynghynt a diolchwn hefyd i bawb a gyfrannodd nwyddau ar gyfer y parti hwnnw. Mae'r Cyfarfod Plant a'r Ysgol Sul wedi aildechrau erbyn hyn a byddem yn falch iawn o weld plant newydd yn dod i'r naill a'r llall.

PRIODAS. Dymunwn yn dda i gartwnydd yr Eco, Robert Williams, ar ei briodas â Tracey Fleming ddydd Sadwrn, Ionawr 23. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i chi.

DIOLCH. Dymuna Doris a theulu'r diweddar Huw 'Bara', 5 Stad Tŷ Du ddiolch am yr holl gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl. Diolch am y rhoddion ariannol a gafwyd er budd Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont.

YSGOL FEITHRIN. Pob dymuniad da i Delyth Tomos sydd erbyn hyn yn arwain yr Ysgol Feithrin a gynhelir yn y Ganolfan. Croeso a dymuniadau gorau hefyd i Anti Pamela sydd wedi dod i'w chynorthwyo gyda'r gwaith. **LLONGYFARCHIADAU** i Anne Marie Williams, 35 Dôl Elidir ar ei llwyddiant yn yr arholiad cerdd gradd 5 gyda marciau rhagorol.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Nos Wener, Ionawr 1, bu'r côr yn diddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty Fictoria. Roedd y lle'n orlawn. Trefnwyd raffl a chyflwynwyd yr elw o £175 i Ysgol Pendalar. Diolch yn fawr i'r rhai fu'n gyfrifol am y gwobrau a hefyd yn gwerthu'r tocynnau.

PLAS PENGWAITH. Ar Ragfyr 14 mwynhawyd prynhawn difyr yn y lolfâ gyda rhaglen Siôn a Siân wedi'i threfnu gan Shirley gyda Derek yn cyflwyno. Mr a Mrs Munro enillodd gyda Mr a Mrs B. Thomas yn ail, a

dau o'r staff — wedi'u gwisgo'n bwrpasol — yn drydydd, sef Vivien a Jennifer. Cafwyd tipyn o hwyl ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Buom yn canu carolau wedyn a'r taflenni wedi eu paratoi gan Mrs L. Thomas a Mr Thomas wrth yr organ. Diolch yn fawr iddynt am eu hamser. Daeth Seindorf Arian Llanberis atom i orffen y prynhawn ac roedd pawb wedi mwynhau gwrandao ar y band. Diolchwyd ar ran y trigolion i bawb a drefnodd y diwrnod gan Miss M. Williams a diolchodd Mrs M. Mathews ar ran y cartref i bawb am roi o'u hamser ac am eu gwaith ar gyfer y diwrnod. Cafwyd bwffe i gloi gweithgareddau'r dydd.

Mwynhaodd y trigolion y Nadolig gyda pawb yn y lolfâ gyda'i gilydd, a hoffai pawb ddiolch i'r swyddogion a'r staff oedd ar ddyletswydd dros yr Ŵyl.

Arhosodd nifer o'r trigolion ar eu traed i groesawu'r flwyddyn newydd.

Croeso nôl i Mrs F. Ellis sydd wedi dod adref o'r ysbyty.

Dathlu eu pen-blwydd yn ystod mis Ionawr bu Mrs D. M. Jones, Mr D. J. Thomas, Mrs Maisie Lewis, Mrs N. Pritchard a Mrs Mair Miller. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain gobeithio.

Mae Mrs E. Jones, Cwm-y-glo wedi dod atom am gyfnod byr ac estynnwn groeso cynnes iddi.

Mae pawb yn dal yn dda heb y fflw yma ond mae pawb yn dymuno'n dda i rai o'r staff sydd gartref yn sâl.

Llongyfarchiadau i Manon a Nigel, ac i Delyth a Geraint ar enedigaeth dwy o genod bach.

Mae pawb yn y cartref yn llongyfarch Mr a Mrs Munro ar dathlu eu priodas ddiamwnt, sef 60 o flynyddoedd o fywyd priodasol, ar Ionawr 26. Mae'r ddau gyda ni ym Mhlas Pengwaith ers mis Medi 1997 ac wedi byw cyn hynny ym Mhenisarwaun. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonynt a dymuniadau gorau am y dathliad priodas nesaf.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau, pob bendith a hapusrwydd i Catrin Lennon a Gwyn Thomas ar achlysur eu dyweddïad ar ddechrau'r flwyddyn.

DIOLCHIADAU

Dymuna Anti Catherine ddiolch am y llu cardiau, anrhegion gwerthfawr a'r blodau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o'r Ysgol Feithrin yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb a phob lwc i'r Ysgol Feithrin i'r dyfodol, a diolch hefyd i Alwena, Llanrug, am y parti.

Dymuna Mrs Maria Pritchard, 4 Vaynol Cottages ddiolch o galon i'w phernasau a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a'u gofal ohoni tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Hoffai ddiolch yn arbennig i Mrs Olwen Roberts a'r cymdogion am bob cymwynas barod. Dymuna hefyd anfon cofion i bawb am flwyddyn newydd dda.

Dymuna Mrs Shirley Hughes Williams, 22 Maes Padarn ddatgan ei diolchgarwch i bawb a wnaeth hi'n bosibl i'w mab, Michael, dderbyn cyfrifiadu'r sydd yn rhoi cymaint o bleser iddo. Rwy'n siŵr y bydd o gymorth mawr i'w addysg yn awr ac i'r dyfodol. Diolch i'r ffrindiau am eu help i godi'r arian, i'r holl glwbiau a grwpiau am drefnu nifer o wahanol ddigwyddiadau ac am yr holl roddion personol a dderbyniwyd. Diolch yn arbennig i fy ffrind Annette Bryn Parri am yr holl waith caled a wnaeth i drefnu'r cyngerdd gwych a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail. Diolch i'r holl artistiaid a gymerodd ran yn y cyngerdd ac i bawb o'r gynulleidfa am fynychu. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Nigel a Manon ddiolch o galon am yr holl anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch, Rebecca Ann.

Fel teulu hoffem ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eich cefnogaeth yn ystod yr amser trist hwn o golli un mor annwyl a hapus â Carys (sef Carys Hughes, 1 Stryd Lanci). Wynebodd ei salwch yn ddewr a chalonog, mwynhaodd ei bywyd, gweithiodd yn ddiwyd yn ei bro, a chael pleser a mwyniant o wneud hynny. Atgofion melys fydd gennym ond fe fydd hiraeth mawr ar ei hôl. Diolch i chi yn deulu, ffrindiau a phobl yr ardal am eich cefnogaeth a'ch cymorth i wynebu'r golled fawr hon. Diolch am y blodau hardd, y cardiau o gydymdeimlad, galwadau ffôn a'r rhoddion hael a fydd yn cael eu rhannu rhwng Ward Alaw Ysbyty Gwynedd, Ysgol Pendalar, a Chlwb yr Henoed, Llanberis er cof am Carys.

MARWOLAETH. Chwith oedd gan ei hen gydnabod glywed am farwolaeth annisgwyl Philip Dicker, Maes Padarn gynt, yn New South

Wales, Awstralia. Roedd yn ŵr ffyddlon i Peggy a thad Peter, Michael, David, Christopher a Jennifer. Ymfudodd y teulu i Awstralia 39 o flynyddoedd yn ôl. **CYMDEITHAS EGLWYS St PERIS** a St PADARN. Yng nghynhesrwydd Tŷ'r Curad y cyfarfu'r aelodau nos Iau, Ionawr 7, gyda'r cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones, yn cymryd y gweddïau agoriadol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan amryw o'r aelodau oedd yn anffodus wedi cael eu taro â'r fflw. Siaradwraig wadd y mis oedd y Cynghorydd Mair Williams o Gaernarfon, a chafwyd orig ddifyr iawn yn ei chwmni yn adrodd hanes ei blwyddyn fel Maer Caernarfon, ar ddau achlysur, a hefyd ei gobeithion am ddyfodol yr hen dref. Diolchwyd iddi hi ac i wragedd y te, Mrs Olwen Roberts a Mrs Evelyn Williams, gan Mr Ralph Jones, oedd ar ei ymweliad cyntaf â'r Gymdeithas ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Griffiths. Derbyniwyd cyfarchion a dymuniadau da i'r aelodau oddi wrth Mrs Hilda Williams sydd ar hyn o bryd yn Awstralia yn ymweld â'i merch, Sylvia, a'i theulu.

DIOLCH. Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar: Becws Penbryn; Siop Carol; Indian Take-away; Y Llythyrdy; Siop Môn; Pete's Eats; Formag; Chinese Take-away; Clôn; Siop Chips; Siop Chips Snowdon Valley; Siop Llaniau; Honey Farm; Joe Brown; Pet Shop; Cigydd Allsup; Siop Trin Gwallt Hairlines; Arthur's Café; Becws Eryri, Gwesty Fictoria; Spar.

PRYSURDEB Y NADOLIG. Bu Lleisiau Lliwedd yn brysur iawn yn ystod mis Rhagfyr. Prynhawn Sul, 13 Rhagfyr roeddent ym Mron Eryri; 15fed yng Nghapel Coch; 18fed yn Nant Peris mewn gwasanaeth Naw Llith a Charol; 20fed ym Mhlas Pengwaith a phrynhawn Llun, 21ain yng Nghanolfan Dydd Maesincla ac yn yr hwyr yn Theatr Fach Gorffwysfa. Cafwyd croeso cynnes a mwynhad ym mhob un o'r cyfarfodydd.

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Ionawr oedd: £35 Mrs V. Thomas, Maes Padarn (95); £25 Mrs E. Lewis, Pen Pwll Coch, Penisarwaun (123); £15 Mrs J. Roberts, 'Rallt Isaf (72); £10 Mrs C. Jones, 1 Bro Glyder, Nant Peris (81); £5 Mrs M. Parry, Ffordd Capel Coch (171).


Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

DAFYDD OWEN TRYDANWR
Pob math o waith trydanol a Larwmaw Lladron



Aelod o'r

11 Rhes Faenol LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Clwb Eryri

Wedi croeso cynnes arferol y llywydd, Alwyn Evans, ar ddechrau blwyddyn newydd arall, cymerwyd awenau'r noson gan y cadeirydd Dei Tomos. Cyflwynodd hwnnw'r siaradwr, y Dr R. S. Williams, yn ei ffordd unigryw a hwyliog ei hun a rhoi inni beth o hanes ei gefndir. Dewisodd y siaradwr y gêm golff yn destun ac fel arbenigwr brwdfrydig yn y maes adloniant hwn, aeth rhagddo i sôn am y poblogrwydd cynyddol a fwynhai'r chwarae. Fel yr heneiddia'r corff a byrhau o'r anadl, naturiol oedd hi i amaturiaid proffesiynol droi at y golff fel gêm addas ar gyfer hydref y cnawd. Serch hynny, roedd y straen seicolegol yn hollol anghymesur â gofynion y cyhyrau a mater o ryfeddod oedd gweld cymaint o chwaraewyr naturiol di-dalen yn dal i bydru arni gyda'r uchelgaïs a'r brwdfrydedd a ddylai eu codi ychydig yn nes at lefel gallu'r cewri pe bai haeddiant mewn ymdrech. Ar nodyn mwy ystyriol, soniwyd am y gêm fel ffordd arbennig o gymdeithasu a chystadlu'n iach ac fel y sicrhau ei threfn i'r sdalaf allu dal ei dir yn weddol effeithiol â'r gorau mewn gornest. Wedi lluniaeth ysgafn, ysgogodd y sgwrs ymateb fywiog o'r llawr a brithwyd yr awyrgylch gan sylwadau a storïau doniol a adlewyrchent gariad, atgasedd neu ddifaterwch brwdfrydig rhai o'r aelodau yn ôl eu gogwydd. Diolchwyd i'r siaradwr a phawb a chwaraeodd ei ran i wneud y noson yn llwyddiant gan John Hugh Hughes. Yn y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Chwefror 5, y siaradwr fydd Eurwyn Jones a'r cadeirydd, Frank Green. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, rhoddir rhai manylion am drefniadau'r Cinio Gŵyl Ddewi ar Fawrth 5 a hyderir y gellir hefyd cael amcangyfrif o'r nifer sy'n bwriadu bod yn bresennol yn y dathlu.

IOLO HUWS-ROBERTS

Cefnogwch ein Hysbysebwy

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Tecwyn Hughes a'r plant, Stryd lanci, Llanberis yn eu profedigaeth lem o golli priod, mam a'nain annwyl iawn, Mrs Carys Hughes (Carys Glanbogelyn gynt)

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Ellen Williams (Anti Nel), Pantafon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w merch Alice a'i mab Idris a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Christine Jones, Dyffryn yn ei phrofedigaeth o golli nai trwy ddamwain. Hefyd daeth profedigaeth lem iawn i ran Mr a Mrs Cyster, Tan-y-graig ym marwolaeth tad Mr Cyster mewn damwain yn Chwarel y Penrhyn.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â chwi oll.

DIOLCH. Dymuna Miss Elizabeth Hughes, Tan y Graig ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiaid, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

NEWYDDION O'R YSGOL. Cafwyd amser hapus iawn yng ngweithgareddau diwedd tymor y Nadolig. Diolch i staff y gegin am baratoi y cinio blasus iawn. Diolch hefyd i bawb yn y pentref, a thu draw, ddaeth i gefnogi y gwahanol ddigwyddiadau yn yr ysgol. Profodd noson paned a mins peis — yng nghwmni Seindorf Arian Llanrug a'r merched ifanc o Lanberis — yn boblogaidd iawn. Cawsom hefyd barti hwyliog dros ben — yn gwledda, dawnsio a chroesawu Siôn Corn. Bu'r ddau berfformiad o'r Sioe Nadolig yn hynod o lwyddiannus.

Serch hynny i gyd, dechrau trist iawn fu 1999 i nifer o'r staff a rhai o blant yr ysgol. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys a diffuant iawn â Mrs Orritt a gollodd ei modryb; Mrs Jennifer Roberts a gollodd ei thad ar ôl gwaeledd hir. Hefyd bu farw nai i Mrs Christine Jones mewn damwain erchyll. Carem anfon ein cofion annwyl at deulu Nigel John yn Llanrug ac yn Neiniolen. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Kevin ac Angela Cyster, Michelle a Nicola, Tryfan, Cwm-y-glo a'r teulu oll, eto

yn Neiniolen, yn eu profedigaeth hynod o drist ac annisgwyl iddynt hwythau.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Rhagfyr oedd Delyth Roberts, Dôlafon a Mr Eifion Jones, Glan-y-don, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch. Mae cyfle newydd i chwi ymaelodi eleni am £1 y mis.

Braf yw cael croesawu plentyn bach arall i'r ysgol. Daeth Dafydd Lloyd Hughes i fyw o Lanberis i Ddôlafon. Mae wedi setlo'n ardderchog yn y Dosbarth Meithrin gyda'i ffrindiau bach newydd.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill y tymor hwn gan Gymdeithas Rhieni / Athrawon yr ysgol. Ymysg y rhain bydd noson o Bingo, Ffair Pasg ac Ocsiwn Fawr. Bydd posteri yn ymddangos yn fuan a cheir mwy o wybodaeth yn yr ysgol.

Rydym yn casglu sticeri ar bacedi creision Walkers ar gyfer eu cyfnewid am lyfrau darllen. Byddem

Gŵyl Gorawl Eryri 1999

Cynhelir yr Ŵyl prynhawn Sul, 16 Mai 1999 yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Maes llafar plant oedran cynradd yr Ysgolion Sul fydd:

Dan 5 oed. Dysgu'r pennill:

Dyn dall oedd Bartimeus — wel, wel,

Dyn dall oedd Bartimeus — wel, wel,

Ond daeth Iesu Grist i'r fro,

Gwyrth wnaeth ar ei lygaid o,

Dyn yn gweld oedd Bartimeus byth mwy.

5-6 oed. Dysgu'r pennill:

Yr Iesu a gerddai o amgylch y wlad,

Ei air yn oleuni, Ei law'n dwyn iachâd,

Ar wneuthur daioni i bawb oedd ei fryd,

A heddiw Efe yw Gwaredwr y Byd.

7-8 oed. Dysgu'r emyn:

Dwylo ffeind oedd dwylo

Iesu ym mhob man

Yn iachau y cleifion

A bendithio'r gwan;

Golchi traed blinedig,

Dal rhai isa'r byd,

Dwylo ffeind oedd dwylo

Iesu Grist o hyd.

Cymer Di fy nwyo,

Arglwydd Iesu, 'nawr;

Gwna hwy'n gryf i rannu

Caredigrwydd mawr;

Gad i mi dy wyllo

Iesu, ar fy nhaith,

Nes troi'n ffeind fy nwylo

Innau yn dy waith.

yn falch iawn o dderbyn y rhain yn yr ysgol. Os gwelwch yn dda, allwch chwi gefnogi ein hymgyrch ni?

Bydd yr ysgol yn cau am wyliau hanner tymor ddydd Gwener, Chwefror 12, ac yn ailagor ddydd

Llun, Chwefror 22.

CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch i Seindorf Llanrug, grŵp y genod o Lanberis ac i Mrs Huws am arwin y noson o ganu carolau a gynhaliwyd yn yr Ysgol ar Ragfyr 15fed. Mwynhawyd y noson gan bawb. Diolch hefyd i Mrs Orritt a Christine am drefnu'r baned a mins peis, ac i Anti Mary, 'Rallt Goch am ei rhodd o ddol wedi'i gwau. Enillwyr y raffl oedd Stephanie, Post Brynrefail, Nellie, Linda a dyfalwyd dyddiad geni Parri'r Peintar yn gywir gan Eira. Gwnaed elw o £250.

Mae gan y Gymdeithas flwyddyn brysur iawn o'i blaen — bingo, ocsiwn, ffair Pasg, taith gerdded nodedig i gopa'r Wyddfa i'r rhieni — felly bydd digon o weithgaredd yn 1999. Bydd yr arian a gesglir eleni yn mynd i brynu offerynnau cerdd i'r Ysgol. Diolch yn fawr unwaith eto am eich cefnogaeth a dymunwn i chwi oll flwyddyn newydd dda.

9-11 oed. Darllen a deall hanes 'iacháu gwas y Canwriad' (Luc, Pennod 7; adnodau 1-10) ac ateb cwestiynau ar lafar.

Maes ysgrifenedig oedran Ysgol Uwchradd fydd:

Blwyddyn 7: Iacháu dyn wedi ei barlysu (Marc, Pennod 2; adnodau 1-12).

Blwyddyn 8: Iacháu Naaman (II Brenhinoedd, Pennod 5)

Blwyddyn 9 a 10: Elias a'r weddw yn Sarefta (I Brenhinoedd, Pennod 17)

Cystadleuaeth agored: Dewiswch eich hoff wrth iacháu a gyflawnwyd gan yr Arglwydd Iesu, a dychmygwch eich hun fel un o'r cymeriadau — disgrifiwch eich profiad.

Cywaith: Iacháu.

Dyddiadau pwysig

Arholiad llafar: 18 neu 25 Ebrill.

Arholiad ysgrifenedig: 25 Ebrill am

2 y pnawn yn Neuadd Eglwys Santes

Helen, Penisarwaun.

Arholiad cywaith: 9 Mai yn Eglwys

Sant Padarn, Llanberis am 2 p.m.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Rhowch rosyn i'ch anwylyd ar ddydd Sant Ffolant


Rhodd o'r galon yw blodau

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO



GWYNANT
PIERCE

Cynrychion Coed:-

Gatiau, Ffensus ac ati

am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

(0589) 899901

Noson Wobrwyo Arfon

Eleni eto cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn er mwyn gwobrwyo Campau Arfon. Erbyn hyn mae'r trefniadau yn nwylo diogel Cymdeithas Chwaraeon Arfon. Mae'r gymdeithas hon wedi datblygu o ran ei chyfraniad i'r gwahanol gampau yn lleol yn ogystal ag o ran rhif aelodaeth. Mae'n rhoi llais i'r campau, yn trefnu cyrsiau hyfforddi ac yn rhoi grantiau i unigolion a thimau er mwyn iddynt ddatblygu a gwella safon y chwarae. Gwesty'r Celt yng Nghaernarfon oedd lleoliad wych y noson wobrwyo eleni. Mae cyfleusterau'r brif neuadd yno, sy'n cynnwys offer sain a fideo, yn gaffaeliad mawr i'r sioe. Roedd yno gynulleidfa deilwng i noson sy'n un o uchafbwyntiau calendr chwaraeon yr ardal. Bryn Terfel oedd y gŵr gwadd ac roedd ei naturioldeb a'i barodrwydd i sgwrsio â hwn a'r llall yn cyfrannu at lwyddiant y noson. Steven Morgan — sy'n prysur ddatblygu yn Desmond Lynam lleol — oedd yn arwain y gweithgareddau ac roedd yr orsaf radio leol Champion FM yn noddi'r noson ar y cyd â Gwesty'r Celt. Mae sawl peth ynglŷn â'r noson sy'n destun rhyfeddod, fel yr amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a geir yn y fro, ac ymroddiad yr ifanc. Dylai'r wasg leol ymateb i'r amrywiaeth trwy roi mwy o sylw i chwaraeon heblaw pêl-droed a rygbi. Rhaid llongyfarch Cyngor Gwynedd am sicrhau adnoddau hyfforddiant ar gyfer yr ieuencid. Hawdd fel arall fyddai i broblemau teithio a diffyg noddwyr a diffyg cystadleuaeth o safon olygu cryn anfantais i'n hieuenctid dawnus.

YR ENILLWYR

Mae'r safon a adlewyrchir yn y noson wobrwyo wedi codi yn arw dros y blynyddoedd. Yn y dyddiau cynnar roedd ennill cynghrair leol neu fod yn bencampwr lleol yn ddigon o gamp i roi gobaith am wobwr i rywun. Erbyn hyn mae'r fro yn frith o gystadleuwyr rhyngwladol a phencampwyr cenedlaethol. Eleni enillwyd prif dlws 'Chwaraewr y Flwyddyn' gan un o fro'r Eco, sef Eifion Williams, brenin y pwll nofio. Mae'r bachgen hwn wedi cael cryn sylw ar dudalennau'r Eco yn ddiweddar ac nid rhyfedd hynny o glywed rhestru ei lwyddiannau wrth ei wobrwyo.

TIMAU'R FLWYDDYN

Chwec o enethod sy'n aelodau o dim gymnasteg Eryri a enillodd tlws Tim Ieuencid y Flwyddyn. Hwylwyr pencampwyr Cymru ar y lefel gradd 2, a hynny am y drydedd tro o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Mae tair o'r chwec yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail, sef Lucy Stevens, Katherine Pike a Nia Wakeham. Enillodd Lucy fedal arian unigol a Katherine fedal efydd unigol yn y gystadleuaeth genedlaethol.

Tim y Flwyddyn oedd tîm rhedeg mynydd Harriers Eryri. Wedi cyfres o rasus o safon uchel yn yr Alban, Lloegr a Chapel Currig, cipiwyd y fedal efydd ym Mhencampwriaeth Prydain.

SÊR IFANC

Mae dylanwad Plas Menai yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn a'n hwylwyr lleol yn ennill profiad 'ar stepen eu drws'. Dim ond 12 oed yw Kate Williams o Bontnewydd ac mae hithau yn bencampwr Prydeinig yn ei hoedran. Mae'n ail yn y rhestr Brydeinig a hynny'n golygu ei bod yn aelod blaenllaw o'r garfan Brydeinig. Hi oedd Geneth y Flwyddyn.

Enillwyd tlws Bachgen y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol gan Cai Pierce o'r Carneddi, Bethesda. Mae'n dipyn o redwr trac yn y ras dros 3000m ac mewn rasus mynydd lle mae'n cystadlu yn erbyn rhai bedair blynedd yn hyn nag ef ei hun.

GWAITH CALED

Mae'r tlws a roddir am 'Wasanaeth i Chwaraeon' yn un pwysig ac enillwyd hwn eleni gan Dewi Edwards, llywydd Clwb Criced Bangor. Rhoddodd Dewi ddeugain mlynedd o wasanaeth i'r Clwb. Yn y llythyr oedd yn ei enwebu ar gyfer y tlws soniwyd bod Dewi yn mynnu gwneud pob dim yn iawn a chydag urddas, ac yn mynnu bod rhaid i bob dim adlewyrchu'n dda ar y Clwb a'i aelodau. Un arall a enwebwyd ar gyfer y tlws hwn oedd Twm John Roberts o Lanberis, sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i bêl-droed ieuencid ein hardal. Byddai yntau wedi gwneud enillydd haeddiannol iawn.

GWOBR ARBENNIG

Rhoddwyd gwobr arbennig i Gareth Roberts o Lanrug. Cafodd Gareth drawsblaniad arenau pan yn



Nia, Kathryn a Lucy.

ddwyflwydd oed ac erbyn hyn mae'n aelod blaenllaw o Glwb Tennis Arfon a Chlwb Nofio Caernarfon. Rhoddwyd tlws i'w dad hefyd, Aled Roberts, am ei gyfraniad i sefydlu'r strwythur hyfforddiant a gwella adnoddau yn ystod ei yrfa gyda Cynghorau Arfon a Gwynedd. Mae Aled bellach yn gweithio ym Môn.



Gareth Roberts

Y 'SHARKS'

Un o'r enillwyr mwyaf poblogaidd oedd Thelma Williams o Dregarth. Hi yw sefydlydd a'r deinamo sy'n gyrru Clwb Hoci Rowlio y 'Plas Ffrancon Sharks' ym Methesda. Dim ond y sgidiau rowlio oedd gan y tîm flwyddyn yn ôl, ond trwy ymdrech diflino Thelma cafwyd y nawdd angenrheidiol i brynu'r offer drud sy'n rhaid eu cael ar gyfer y gamp hon. Mae bechgyn y tîm yn meddwl y byd o Thelma, sy'n gwisgo sawl het — trysorydd, hyfforddwr a gyrrwr y bws mini. Erbyn hyn mae'r 'Sharks' yn ail i dîm Bwcle yng Nghynghrair Gogledd Cymru.

Nid wyf am ymddiheuro am roi cymaint o sylw i'r noson. Prin yw ein hymwybyddiaeth o lafur y gwirfoddolwyr ffyddlon yn ein plith. Maent yn rhoi cyfle pwysig i'n hieuenctid feithrin eu doniau, ac erbyn hyn mae rhai o'r ieuencid yn fwy na 'pysgod mawr mewn pwll bychan'. Diolch iddynt ac erfyniwn ar eraill i roi pob cefnogaeth iddynt. Dymunwn yn dda i'r holl enillwyr ac i bob un a enwebwyd. Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i Noson Wobrwyo Sir Gwynedd yn y dyfodol agos.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar y noson y cyhoeddwyd fod strategaeth Ardal y Lechen wedi derbyn cyllid sylweddol gan y Swyddfa Gymreig ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyddigwyddiad hapus oedd fod yr Aelod Seneddol, Dafydd Wigley, yn bresennol ar y noson.

Eglurodd yr AS fod hwn yn un o dri datblygiad posib yn ystod y cyfnod nesaf a ddylai wneud cryn tipyn i wella rhagolygon yr ardal dros y blynyddoedd.

Roedd y Cyngor yn falch o ddeall fod y ffens ar Bont Crawia wedi cael ei atgyweirio o'r diwedd. Amlygwyd fod cwynion ynglŷn â llanciau yn yfed ar y strydoedd yn Neiniolen a Bethel. Cael diodydd caniau o siopau sy'n gyfrifol am hyn a'r caniau

wedyn yn cael eu taflu ar y strydoedd.

Yn dilyn cais gan Reolwr Cynllunio Ardal Arfon cytunwyd i geisio gwneud trefniadau i arddangos ceisiadau cynllunio i'r cyhoedd yn y gwahanol bentrefi.

Sylweddolwyd y byddai hyn yn achosi peth anhawster mewn plwyf mor wasgaredig â Llanddeiniolen, a phenderfynwyd gofyn i'r Rheolwr Cynllunio ystyried gosod hysbysfyddau mewn gwahanol adeiladau yn y pentrefi er hwylustod i'r aelodau lleol arddangos y ceisiadau.

Roedd pob aelod o'r Cyngor wedi derbyn holiadur i ofyn eu barn am droseddau yn y gwahanol bentrefi, er tynnu sylw'r heddlu at y prif broblemau.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi
preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau
ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan




D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

CROESAIR CHWEFROR



ENW
CYFEEIRIAD

CÔD POST

I 1 ar draws (4,7) yr aeth 25 i lawr fel 7 i lawr ar ôl colli serch Maelon. Bellach fe'i hadweinir fel 22 i lawr 19 i lawr 16 ar draws.

AR DRAWS

6. Y cythrael yng nghell y llofrudd (4)
9. Daeth y Deg Gorchymyn o Arch y Cyfamod, ond o Arch y Sul y daw'r achos (7)
11. Llun, er enghraifft, o Dion yn edrych ar yr hyn a adwaenir yng ngwaelod ei bot peint (8)
12. Neges ysgrifenedig ar yr organ (5)
13. Meg yn slo? Ia, hogan ddwl ydi hi (8)
14. Un o ffrwythau'r ardd, neu efallai 13 ar draws mewn dawns (9)
18. Chwarter deugain (3)
20. Hylif a ddefnyddir i ysgrifennu (3)
23. Rhan o Epistol Paul at y Colossiaid (5)
24. Y copïau a gynhyrchir ar yr un adeg gan y wasg (9)
27. Y weithred o wneud yn un (8)
29. Y wyrwys (5)
31. Dyn sy'n dod yn ôl neu yn rhoi yn ôl (8)
32. Dinistr (7)
33. Mam mam (4)
34. Argraffiadau a wneir mewn gŵyr. Pwrpas sein cynnyrch electroleiddiad! (11)

ATEBION MIS IONAWR

Derbyniais atebion i groesair mis Ionawr gan E. E. Jones, Rhoshir-waun; Megan W. Jones, Bangor; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones, Pwllheli; Elwyn Evans, Llanfairpwll; Eirwen Roberts, Tregarth; Mabel Parry, Porthmadog; Huw Tegid Roberts, Llanrug; Mair Foulkes, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Moreen Lennon, Llanberis; Nan Owen, Llanberis; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mary Davies, Waunfawr; Elfed Evans, Llanllechid; M. P. Jones, Clynnog; Dorothy Jones, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mair

I LAWR

1. Cymell ei gilydd (7)
2. Erlyn (5)
3. Merch dyner y sgwier (5)
4. Dim yma bellach (4,4)
5. Yr hyn a geir wrth wasgu oren a lemon (6)
8. Esmwythaol (8)
10. Y rhyfeddod o bechadures yn derbyn maddeuant (6)
15. Cwmni swnllyd? (4)
17. Car neu sgert heb fod yn fawr (4)
21. Cant a hanner cant, un a phum cant yn cwmpasu eitem o wisg merch yn yr act o gael tryfesur (8)
26. Y ferch ddaeth rhwng Meic a Glenys — yn sicr nid un felly oedd 25 i lawr (6)
27. Gwrid (5)
28. Parhaus (5)
30. Diffyg gwres (5)

Fy nghydymdeimlad dwys â theulu Joan Williams, Caernarfon fu farw yn ystod mis Ionawr. Bu Joan a lorwerth yn driw iawn i'r Croesair am flynyddoedd a byddai nodyn bach personol yn yr amlen bob mis yn diolch am y cyfle i ymarfer eu ymennydd.

Evans, Caernarfon; Nansi Davies, Rhuthun; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Ceinwen Williams, Bethel; Catherine A. Jones, Rhiw; Olwen Owen, Llanberis ac un dienw.

Roedd pob un wedi ateb 10 ar draws yn gywir er fy mod i wedi llwyddo i wneud cawl o'r cliw (diolch Ceinwen), yn gyffredinol, mae'r mwyafrif helaeth yn berffaith gywir.


Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli sy'n ennill £5 cynta'r flwyddyn — llongyfarchiadau i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Chwefror, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharch, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE erbyn Chwefror 22.

Dyddiadur y Mis

CHWEFROR

1. Llun **DEINIOLEN:** Cymdeithas Cyfeillion yr Eglwys yn Llandinorwig am 7. Sgwrs gan Mr Hefin G. Jones.
2. Maw. **PENISARWAUN:** Yr Urdd gyda Mark Porter.
3. Mer. **PENISARWAUN:** Dawnsio llinell yn Neuadd yr Eglwys am 8.
4. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas — Noson Lawen o dan ofal Mrs M. Hughes, Llanberis.
8. Llun **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwys yn Ebeneser. Cylch Trafod. **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Ms Eryl R. Hughes, Pensarn.
9. Maw. **LLANRUG:** Merched y Wawr — sgwrs gan Mr Peredur Williams.
11. Iau **PENISARWAUN:** Yr Urdd o dan ofal Mrs Ann Ifans.
15. Llun **DINORWIG:** Y Gymdeithas — Cwmni Drama Llanberis.
17. Mer. **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs gan Ms J. Moeller am ei thaith i Alaska.
17. Mer. **Dydd Mercher Lludw. DEINIOLEN A'R CYLCH:** Gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llandinorwig am 7.
18. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas — sgwrs gan y Parchg Idris Thomas, Trefor.
22. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas — sgwrs gan Ifor ap Glyn.



RHODDION

- £10: Er cof am Mrs Ellen Lewis, Tŷ 'Sgody (Tai Isaf gynt), Waunfawr.
- £5: Mrs Menai Jones, Sycharth, Llanrug. Mrs Gwenda Roberts, Hafle, Llanrug. Mr a Mrs John E. Roberts, 24 Bro Waun, Waunfawr; Mr a Mrs Gwilym Jones, 15 Bro Waun, Waunfawr; Mr a Mrs O. T. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr. Mrs Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis. Mrs Shirley Hughes Williams, 22 Maes Padarn, Llanberis. Mrs Maria Pritchard, 4 Vaynol Cottages, Llanberis; Mr Eddie Wyn Lewis, 18 Rhydfadog, Deiniolen; Bryan a Gwyneth Jones, Preswylfa, Clwt-y-bont.
- £3: Mrs Catherine Williams, 'Rallt Goch, Llanberis.
- £2: Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Er cof am Philip Dicker, New South Wales, Awstralia.

**PEIDIWCH A
GORI AR STORI
ANFONWCH HI
I'R ECO**



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



CHWARAEON

Ar ben arall y lein . . .

'Be ti'n i neud hefo chdi dy hun, rŵan fod y tymor 'sgota 'di gorffan?' Doeddwn i ddim, am unwaith, yn gwybod beth i'w ddweud ond wedi meddwl am eiliad dyma sylweddoli 'mod i'n mynd yn brysach fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio, neu — ac mae hynny yn nes i'r pwynt — mai arafu yn raddol mae rhywun wrth heneiddio gan wneud i bethau gymeryd mwy o amser i'w cwblhau. Wel, dyna 'di fy esgus i!

Yn fy nhyb i mae'r flwyddyn a fu wedi bod yn allweddol gan fod pwysigrwydd y Gymdeithas wedi cael ei chydabod yn yr ardal fel sefydliad sy'n sicrhau bod hawliau lleol ym mherchnogaeth pobol leol. Does ond eisiau edrych ar ardaloedd eraill yng Nghymru lle na chaiff trigolion lleol wneud defnydd o'r adnoddau lleol. Mae hi dipyn gwahanol yma lle mae'r dyfroedd yn agored i bawb am bris tocyn.

cefnogeth ac i Eirian Pierce Jones ac Eifion Jones, Swyddogion Datblygu Bro Gwyrfa'i a Pheris am eu harweiniad a'u cyngor parod.

Rhan arall o'r gwaith sy'n brysach fynd ymlaen yw gwella cynefin glannau'r afonydd lle mae'r eogiaid a'r sewin yn ei ddefnyddio i fagu. Mae'r gwaith yma wedi'i orffen ar lannau'r afon Afr, Nant Peris ac afon Gelli, Nantlle. Cwblhawyd y gwaith gan Asiantaeth yr Amgylchedd a rhaid diolch iddynt, a hefyd perchnogion y tir, am eu brwdfrydedd tuag at y gwaith. Gobeithio y bydd mwy o waith cyffelyb yn cael ei wneud ar ddarnau eraill o'r afonydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwaith o ailstocio rhannau uchaf afonydd Peris, Afr a Hwch gydag eogiaid ifanc wedi dechrau yn '98 ac mae cyflenwad '99 yn dod ymlaen yn ardderchog yn y Ddorfa, gyda'r



Llwybr neu rwystr? Mae'r eogiaid a'r brithyll yn ei chael hi'n anodd dros ben i ddefnyddio'r llywybr pysgod yma yn Nant Peris. Tybed ai hyn sy'n achosi problem magu pysgod yn y Nant?

Wrth gwrs mae rhai yn meddwl gan fod y dyfroedd mewn dwylo lleol fod y pysgota i fod am ddim. Ond petaem ni ddim yn gwella safon y pysgota, cynnal a chadw a magu'r pysgod efallai y byddai'r pysgota wedyn i'w gael yn rhad ac am ddim! O edrych ar brisiau'r tocynnau — £85 y flwyddyn i oedolion, £12 i bobl ifanc dan 18 oed, a £42.50 rai rhwng 18 a 21 oed — mae'n fargen ora'r wlad. Faint ydi cost aelodaeth o glybiau golff Gwynedd tybed — ydi rheiny am ddim 'sgwn i? Wedi'r cwblw fedrwrch chi ddim gwneud pryd blasus o bêl golff!

Mae pryniant allweddol newydd ei gwblhau, sef hawliau ar oddeutu 33% o Lyn Padarn. Rhaid diolch i Gyngor Gwynedd, trwy Gist Gwynedd, am yr arian i wneud hyn yn bosibl. Mae arian o'r un ffynhonell wedi'i glustnodi i bryniant afon Goch, Nantlle a rhan o afon Gwyrfa'i ym Metws Garmon. Rhaid diolch hefyd i Gyngorau Cymunedol Waunfawr a Llanllyfni am eu

wyau wedi dangos llygaid ers yr ail wythnos o Ionawr. Roedd hi'n hwb hefyd gweld nifer dda o eogiaid yng ngheg y twnnel yn Nant Peris yn ystod wythnos y Nadolig ac mae'r rhagolygon am y dyfodol yn edrych yn ffafriol. Pe byddai'r rhwydi oddi ar arfordir Iwerddon yn ymlacio rhywfaint ar eu hysgubo fe fyddai'n ardderchog.

Rhaid i mi ddiolch i Mrs Rennie Williams, Penisarwaun am gael gwneud copïau o luniau Llyn Penrallt sydd yn ei meddiant. Rwyf wedi gwneud sleidiau ohonynt ac yn disgwyl rŵan cael eu trosglwyddo i luniau a fydd yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Diddorol iawn oedd darllen yn llyfr Dafydd Whiteside Thomas am y Tylwyth Teg ac fe allaf innau gadarnhau eu bod yn dal yn hollach yn y fro. Sut dwi'n gwybod? Wel, am fy mod i'n 'sgota yn aml hefo rhai ohonyn nhw! Dwi'n amau dim fod rhai ohonyn nhw wedi ymgartrefu yn y Ddeorfa hefyd!

H. P. HUGHES

1958-1999 Dim newid

Bûm yn ffodus o gael nifer o lyfrau a fideos yn anrhegion Nadolig. Mae'n bosib bod fy ngwraig a'm ffrindiau wedi penderfynu mai dyna'r ffordd i'm cadw'n ddistaw neu i'm cadw yn y tŷ ambell noson! Mwynheais lyfr Richie Benaud oedd yn cadarnhau i mi ei fod yn gyfathrebwr gwyb. Roedd fideo wythnos olaf y Llewod yn Ne Affrica yn dangos agwedd gystadleuol ar ei gorau. Ai dyna beth yw ystyr bod yn broffesiynol tybed? Ond rhaid cydnabod nad oedd areithiau'r hyfforddwyr yn ddim gwahanol i rai John Cefn neu lolo yn Llanbabo a Llanbêr wrth apelio at yr unigolyn a rhoi cic dan din ar yr adeg iawn. Yr un pob hyfforddwr a rheolwr yn y diwedd.

Mae dau o'r anrhegion a gefais yn haeddu mwy o sylw. Fideo rhyfeddol Bill McLaren yw'r cyntaf. Dyma un o gewri'r 'meic' ond eto gŵr mor ddiymhongar. Byddai wedi chwarae rygbi dros ei annwyl Alban oni bai am anaf a arweiniodd at y dicau. Dewin geiriau sy'n deall ei faes a'i gynulleidfa i'r dim yw'r gŵr hwn. Er ei fod yn paratoi'n drylwyr cyn sylwebu y dywediadau 'off the cuff' sy'n aros yn y cof. Ar fwy nag un lefel mae Bill McLaren yn gawr o ddyn.

A'r ail anrheg yr wyf am ei gymeradwyo i chi yw'r llyfr, *When Pele Broke our Hearts*, gan Mario Risoli. Cofnod yw hwn o hanes tîm pêl-droed Cymru yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn Sweden yn

1958. Mae'r deunydd wedi'i ymchwilio'n drylwyr ac wedi'i sgwennu mewn iaith hamddenol a darllenadwy. Down i adnabod y chwaraewyr. Cawn olwg ar arweiniad digyfaddawd Jimmy Murphy a hynny cofiwch ychydig fisoedd yn unig wedi trychineb Munich a chwalu ei annwyl Manchester United. Cawn wybod hefyd am ffaeiddau pêl-droed Cymru yr adeg honno — does dim wedi newid hyd heddiw. Cawn olwg ar gryfderau a gwendidau arwyr fel John a Mel Charles, Ivor Allchurch, Jack Kelsey a Mel Hopkins. Diddorol sylwi bod Cymru wedi mynd drosodd i Sweden gyda 15 chwaraewr a 18 swyddog. Do, bu pobl y blazers a'r teis yn bwysig erioed. A rhyfedd meddwl am y chwaraewyr yn canu caneuon pop y cyfnod tra canai'r swyddogion emynau. Pwy oedd yr yfwrw slei? Pa anlwc gafodd Cymru, a hynny wedi'r lwc o gyrraedd Sweden yn y lle cyntaf? A chawn hanes Pele yn chwalu gobeithion y tîm, a'r tîm yn dod adref a neb yno i groesawu'r arwyr. Dyma gofnod rhyfeddol o un — efallai'r unig — oes aur i bêl-droed Cymru. Mae'n llyfr gwerth ei ddarllen. Gyda llaw, ni chefais nawdd gan Bill McLaren na Mario Risoli ar gyfer yr erthygl hon.

Cwestiwn syml y orffen: pa ddau aelod o garfan Cymru yn Sweden fu'n chwarae i Glwb Porthmadog?

Llwyddiant Teuluol

Braf yw cael cofnodi llwyddiant brawd a chwaer o Lanberis, Aaron (13) a Becky Jones (14) sydd wedi cymryd camau breision yn ddiweddar. Rygbi yw maes Aaron ac erbyn hyn mae'n aelod rheolaidd o garfan -14 gogledd Cymru. Y crys rhif 9 yw ei safle — y cysylltydd pwysig rhwng y blaenwyr a'r cefnwyr — a'i arwr sy'n gwisgo'r crys coch yw Robert Howley. Dechreuodd Aaron ymddiddori yn ifanc iawn ac ymaelododd yn sesiynau hyfforddi Clwb Rygbi Caernarfon ac yn amlwg mae ganddo'r dalent gynhenid gan iddo gynrychioli tîm y Gogledd — mewn gwahanol oedrannau — yn ystod y tri thymor diwethaf. I gynnal ei safon mae Aaron yn ymarfer unwaith yr wythnos yng Nghaernarfon a nowon arall gyda charfan y Gogledd ym Mae Colwyn. Tra'n

aelod o dim -12 y Gogledd fe gafodd y wefr o chwarae ar faes lledrithiol Parc yr Arfau a'i nod yw cael dychwelyd yno i ail-fyw'r wefr a hynny mewn stadiwm newydd.

Hoci yw maes Becky ac mae hithau hefyd yn aelod rheolaidd o dim -16 y Gogledd. Yn ddiweddar bu'r tîm yn fuddugol yn erbyn Gorllewin Cymru (3-1) ac yna erbyn y De (2-1). I goroni'r cyfan cafwyd y buddugoliaethau ar dir yr Hwntws! Y Gogledd oedd enillwyr y twrnameint.

Tair blynedd sydd ers i Becky ddechrau chwarae'r gêm yn yr Ysgol. I gyfoethogi ei phrofiad mae Becky hefyd yn aelod rheolaidd o dim hoci Merched Caernarfon.

Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

